



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Y SAFONAU GOFYNNOL CENEDLAETHOL

ar gyfer CARTREFI GOFAL I OEDOLION IAU

ISBN 0 7504 2927 5

MAI 2002

Hawlfraint y Goron 2002

Datganiad o'r safonau gofal gofynnol cenedlaethol sy'n
gymwys i gartrefi gofal ar gyfer oedolion iau ac a wnaed gan
Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan y pwerau a roddwyd
iddo gan adran 23(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000



Y Gweinidog Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
17th Ebrill 2002

CYNNWYS

Tudalen

Cyflwyniad	1
Gwerthoedd allweddol.....	8
Dehongli	8

1. Dewis cartref (Safonau 1 - 5)

Gwybodaeth.....	9
Asesu Anghenion	10
Bodloni Anghenion.....	11
Ymweliadau Prawf	12
Y Contract.....	13

2. Anghenion a dewisiadau unigol (Safonau 6 - 10)

Cynllun y Defnyddiwr Gwasanaeth	15
Gwneud Penderfyniadau	16
Cyfranogi	17
Cymryd Risgiau.....	18
Cyfrinachedd.....	18

3. Dull o fyw (Safonau 11 - 17)

Datblygiad Personol.....	20
Addysg a Galwedigaeth	20
Cysylltiadau Cymunedol a Chynhwysiant Cymdeithasol.....	21
Hamdden	22
Perthnasoedd	23
Arferion Pob Dydd	23
Prydau Bwyd ac Amserau Bwyd.....	24

4. Cymorth Personol a Gofal lechyd (Safonau 18 - 21)

Cymorth Personol	26
Gofal lechyd.....	27
Meddyginiaeth	28
Heneiddio a Marwolaeth	30

5. Staffio (Safonau 22-27)

Rolau	31
Nodweddion a Chymwysterau	32
Tîm y Staff	33
Recriwtio	34

Hyfforddi a Datblygu	35
Goruchwyliaeth a Chymorth.....	36

6. Dull cynnal a rheoli'r cartref (Safonau 28- 34)

Gweithrediadau Pob Dydd	38
Ethos.....	38
Sicrwydd Ansawdd.....	39
Polisiâu a Gweithdrefnau.....	40
Cadw Cofnodion	41
Arferion Gwaith Diogel.....	41
Dull Cynnal y Gwasanaeth.....	44

7. Pryderon, cwynion ac amddiffyn (Safonau 35 - 36)

Cwynion a Phryderon.....	45
Amddiffyniad.....	46

8. Amgylchedd (Safonau 37 - 41)

Adeiladau	47
Ystafelloedd Unigol	48
Lle a rennir	50
Addasiadau ac Offer	51
Hyllendid a Rheoli Heintiau.....	53

Atodiadau

1. Geirfa	55
2. Polisiâu a gweithdrefnau.....	58

Atodiad Un: Safonau ychwanegol ar gyfer cartrefi gofal sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed

1. Dewis Cartref	61
2. Anghenion a Dewisiadau Unigol	62
3. Dull o fyw.....	64
4. Cymorth Personol	67
5. Staffio	68
7. Prydron, Cwynion ac Amddiffyniad	69
8. Amgylchedd	72

Atodiad Dau: Amrywiadau ar gyfer Cartrefi Gofal ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau	73
--	-----------

CYFLWYNIAD

Nodau

1. Datganiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Oedolion lau yw hwn ac fe'i cyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan adran 23 o'r Ddeddf Safonau Gofal (DSG). Defnyddir y safonau hyn gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) y Cynulliad wrth benderfynu a yw'r cartrefi gofal hyn yn darparu gofal digonol, a ydynt yn bodloni anghenion y bobl sy'n byw ynddynt ac a ydynt yn cael eu rhedeg yn unol â'r gofynion rheoliadol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r safonau'n gyson, a chaiff gyhoeddi safonau diwygiedig fel y gwêl yn briodol.
2. Nodir y gofynion rheoliadol yn Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 ("y Rheoliadau") ac o dan y DSG. Rhaid cyfiawnhau penderfyniadau ASGC drwy gyfeirio at y gofynion rheoliadol hyn; a phan fydd yn gwneud penderfyniadau rhaid i ASGC gymryd y safonau hyn i ystyriaeth. Rhaid i asiantaethau eraill sy'n rhan o'r cynllun rheoliadol, fel y Tribiwnlys perthnasol, a'r Llysoedd, gymryd y safonau i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau o dan y DSG. Er enghraifft, yn ôl rheoliad 16(2)(ff) o'r Rheoliadau "O roi sylw i faint y cartref gofal ac i nifer ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth, rhaid i'r person cofrestredig ddarparu, mewn symiau digonol, fwyd addas, iachus a maethlon...". Wrth ystyried a yw'r gofyniad hwn yn cael ei fodloni ai peidio, bydd ASGC yn cymryd safon 17.3 i ystyriaeth sy'n rhan o safon 17 ynghylch prydau bwyd ac amserau bwyd. Mae hon yn dweud y dylid cynnig tri phryd bwyd llawn y dydd i bob defnyddiwr gwasanaeth (ac y dylai dau o'r prydau hynny o leiaf fod wedi'u coginio). Os dyweder, nad oedd ond un pryd bwyd wedi'i goginio yn cael ei gynnig caiff ASGC ddod i'r casgliad nad yw rheoliad 16(2)(ff) yn cael ei fodloni a chymryd camau gorfodi priodol.
3. Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol a nodir yn y ddogfen hon yn ofynion craidd sy'n gymwys i bob cartref gofal sy'n darparu llety a gofal personol neu ofal nyrsio i oedolion 18 - 65 oed y mae ganddynt:
 - anabledau corfforol
 - anabledau synhwyaidd
 - anabledau dysgu
 - anhwylderau sbectwm awtistig
 - problemau iechyd meddwl
 - problemau camddefnyddio alcohol neu sylweddau
 - HIV / AIDS

- anabledau deuol a/neu aml-anabledau cymhleth, gan gynnwys y rhai sy'n fyddar ac yn ddall.
4. Mae'r safonau'n gymwys i gartrefi o'r math a ddisgrifir uchod y mae'n ofynnol o dan y DSG eu cofrestru fel cartref gofal, gan gynnwys cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio sydd wedi'u cofrestru eisoes, ynghyd â chartrefi sydd wedi'u hesemptio ar hyn o bryd o dan Ddeddf Cartrefi Cofrestredig 1984, er enghraifft Cartrefi Siarter a chartrefi awdurdodau lleol.
 5. Er bod y safonau hyn yn eang eu cwmpas, maent yn cydnabod anghenion unigryw a chymhleth unigolion, a'r wybodaeth, a'r medrau a'r cyfleusterau penodol ychwanegol y mae eu hangen er mwyn i gartref gofal gyflwyno gwasanaeth cynhwysfawr sydd wedi'i deilwra ar gyfer unigolion. Bydd rhai o'r safonau ar gyfer yr amgylchedd ffisegol yn cael eu cyflwyno'n raddol i'r cartrefi presennol a byddant yn cynnwys cartrefi awdurdodau lleol a Chartrefi Siarter a chartrefi eraill nad ydynt wedi'u cofrestru cyn hyn.
 6. Dylid ystyried y safonau hyn, a'r fframwaith rheoliadol y maent yn gweithredu ynddi, yng nghyd-destun amcanion polisi cyffredinol y Cynulliad ar gyfer annibyniaeth, dewis a chynhwysiant. Bydd angen amrywiaeth yn y ddarpariaeth arbenigol i helpu i gyrraedd yr amcanion hyn. Mae gan gartrefi gofal o ansawdd dda ran bwysig i'w chwarae yn y ddarpariaeth honno.

Cartrefi Bach

7. Nid yw'r safonau a'r rheoliadau'n gwahaniaethu rhwng cartrefi bach i lai na phedwar person a chartrefi mwy. Dangosodd ymgynghoriad yn ystod datblygu'r safonau mai ychydig o wahaniaeth oedd, yn ymarferol, rhwng cartrefi i dri pherson a'r rhai a oedd yn lletya pedwar, pump neu chwech o ddefnyddwyr gwasanaeth. Y bwriad ym mhob math o leoliad oedd llwyddo i greu amgylchedd ar raddfa ddomestig a drafftwyd y safonau er mwyn adlewyrchu'r bwriad hwn.

Lleoliadau Oedolion

8. Gwahaniaethwyd rhwng cartrefi bach a lleoliadau oedolion, lle mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn cael llety a gofal personol/cymorth yng nghartref teulu'r darparydd. Mae'r Cynulliad yn awyddus i gynorthwyo cynlluniau lleoliadau oedolion a pheidio â gorlwytho gofalcwyr unigol sy'n gysylltiedig â chynlluniau o'r fath. Cyhoeddwyd set o safonau ar wahân i adlewyrchu gofal felly sy'n seiliedig ar y teulu.

Atodiad ar gyfer Plant

9. Ar hyn o bryd, cofrestrir cartrefi gofal i blant ag anableddau o dan Ddeddf Cartrefi Cofrestredig 1984. Bydd hyn yn newid o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, a chofrestrir cartrefi o'r fath fel cartrefi plant.
10. Er hynny, yr ydym yn gwybod oddi wrth y ddarpariaeth ar hyn o bryd fod rhai gwasanaethau yn cynnwys y ddau grwp gofal. Dymunwn sefydlu fframwaith sy'n caniatáu i hyn barhau o dan amgylchiadau penodol yn unig, sef y gwasanaethau hynny sy'n ymwneud â phobl ifanc sy'n pontio. Er enghraifft, pobl ifanc ag anableddau dysgu 16-25 oed, y mae gwasanaethau penodol i hybu annibyniaeth wedi eu paratoi ar eu cyfer. Gallai pobl ifanc ag anableddau corfforol a/neu ag anableddau cymhleth fod yn grwp tebyg. Mae'r safonau ychwanegol ar gyfer cartrefi gofal sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn gymwys i'r sefydliadau hyn. Dylid eu darllen ochr yn ochr â'r prif safonau.

Y cyd-destun rheoliadol

11. Cyhoeddir y safonau hyn yn unol ag adran 23 o'r DSG gan Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddant yn gymwys o 22 Ebrill 2002 ymlaen, fel y mae'r Rheoliadau'n gymwys, oni nodir yn wahanol
12. Mae'r DSG yn diwygio'r system reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal yng Nghymru a Lloegr. Mae'n disodli Deddf Cartrefi Cofrestredig 1984 a'r rheoliadau cysylltiedig, sydd i'w diddymu, yn ddarostyngedig i drefniadau trosiannol, o [] Ebrill 2002 ymalen. Mae'r DSG yn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awdurdod cofrestru Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal iechyd annibynnol. Am y tro, mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu harfer gan is-adran iddo o'r enw Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC). Bydd ASGC yn gyfrifol am gofrestru gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd a gofrestrwyd gynt gan gynghorau lleol ac awdurdodau iechyd. Ar ben hyn, mae ASGC yn darparu i hyd a lled y cofrestru gael ei estyn i asiantaethau eraill nad oes modd eu cofrestru ar hyn o bryd, fel asiantaethau gofal domisilaidd, asiantaethau maethu a chanolfanau teulu preswyl.
13. Mae'r Ddeddf yn rhoi ystod eang o bwerau i wneud rheoliadau i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Chymru sy'n cynnwys, ymhlith materion eraill, rheolaeth, staff, adeiladau, a dull rheoli sefydliadau ac asiantaethau'r gwasanaeth gofal. Mae adran 23 yn rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi datganiadau Safonau Gofynnol Cenedlaethol cymwys i gartrefi gofal y mae'n rhaid i ASGC ac eraill gymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau (fel a ddisgrifir ym mharagraff 2). Bydd y safonau hyn, pan fo'n gymwys, yn ffurfio sail ar gyfer dyfarniadau a wneir gan ASGC sy'n ymwneud â cheisiadau m gofrestru, gosod amodau ar gyfer cofrestru, amrywio unrhyw amodau a gorfodi cydymffurfedd â DSG, gan gynnwys penderfyniadau am ddileu neu erlyn.

14. Felly bydd ASGC yn ystyried i ba raddau y mae cartref yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol wrth benderfynu, at ddibenion ei swyddogaethau cofrestru, a yw darpariaeth yn y rheoliadau wedi ei thorri. Gellir apelio i dribiwnlys annibynnol yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir gan ASGC wrth iddi arfer ei swyddogaethau cofrestru.

Strwythur ac ymagwedd

15. Mae 'r 'safon' sy'n ymwneud ag agwedd benodol ar gartref gofal mewn gwirionedd wedi ei gwneud o set o safonau, sef y paragraffau wedi'u rhifo o dan y blwch 'canlyniad'. Dylid trin pob un o'r paragraffau rhifedig hyn, at ddibenion y DSG, fel safon ar wahân o dan adran 23 o'r DSG.
16. Weithiau, er mwyn gwneud pethau'n haws i'w deall, mae'r safonau'n ailadrodd gofynion y rheoliadau. Ni ddylid cymryd hyn i olygu bod y gofyniad rheoliadol penodol wedi newid o ran ei natur – rhaid i ddarpariaethau'r rheoliadau gael eu bodloni gan y person cofrestredig.
17. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Oedolion lau yn canolbwyntio ar ganlyniadau y gellir eu sicrhau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth - hynny yw, effaith cyfleusterau a gwasanaethau'r cartref ar yr unigolyn. Mae'r safonau wedi'u grwpio o dan y pynciau allweddol canlynol sy'n tanlinellu'r agweddau ar fywydau unigolion a nodwyd wrth ymgynghori â budd-ddeiliaid fel y rhai pwysicaf i'r defnyddwyr gwasanaeth:
- **Dewis cartref:** yr wybodaeth y mae ei hangen ar y defnyddwyr gwasanaeth, asesiad o'u hanghenion unigol, y broses dderbyn a'r contract rhwng y defnyddiwr gwasanaeth a'r cartref gofal;
 - **Anghenion a dewisiadau unigol:** cynllun unigol y defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys anghenion cyfathrebu, eiriolaeth a chymorth; cymryd rhan a gwneud penderfyniadau; cymryd risgiau a chyfrinachedd; a chynllunio at y dyfodol;
 - **Dull o fyw:** anghenion a nodau'r defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer eu datblygiad personol, eu haddysg a'u galwedigaeth; cynhwysiant cymdeithasol, hamdden a pherthnasoedd personol; a gorchwylion pob dydd ac amserau bwyd;
 - **Cymorth personol a gofal iechyd personol:** anghenion y defnyddwyr gwasanaeth o ran materion personol, nyrsio, gofal iechyd ac anghenion meddyginiaethol, gan gynnwys parhad y cymorth a chymorth drwy'r broses o heneiddio, ac yn ystod afiechyd a marwolaeth;
 - **Staffio:** Rolau a chyfrifoldebau'r staff a'r gwirfoddolwyr; eu nodweddion, eu cymwysterau a'u harferion gweithio; eu recriwtio, eu hyfforddi a'u datblygu, eu goruchwyllo a rhoi cymorth iddynt;

- **Dull cynnal a rheoli'r cartref:** gwaith rhedeg y cartref o ddydd i ddydd gan y rheolwr cofrestredig; ethos a rheoli ansawdd y cartref; polisiau, gweithdrefnau a chadw cofnodion gan gynnwys iechyd a diogelwch; a rheolaeth gyffredinol ar y gwasanaeth.
 - **Pryderon, cwynion ac amddiffyn:** y broses y mae y defnyddwyr gwasanaeth yn gallu mynegi eu pryderon a chyflwyno cwynion drwyddi; a dulliau diogelu rhag cam-drin, esgeuluso neu hunan-niweidio;
 - **Amgylchedd:** adeiladau a thiroedd y cartref gofal, gan gynnwys ystafelloedd y defnyddwyr eu hunain, gofodau a rennir, addasiadau ac offer;
18. Er bod y Safonau yn rhai ansoddol - maent yn gyfrwng i farnu ansawdd bywyd y defnyddwyr gwasanaeth - maent yn rhai mesuradwy hefyd. Bydd rheolyddion yn edrych am dystiolaeth fod y gofynion yn cael eu bodloni a bod ansawdd bywydau'r defnyddwyr gwasanaeth yn dda drwy'r canlynol:
- trafodaethau gyda'r defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a chyfeillion, staff a rheolwyr, ac eraill
 - arsylwi ar fywyd pob dydd yn y cartref
 - polisiau, gweithdrefnau a chofnodion ysgrifenedig.
- Bydd y ffaith fod aseswyr llewyg yn cymryd rhan mewn archwiliadau - gan gynnwys pobl ag anableddau, pobl â phroblemau iechyd meddwl neu bobl sy'n camddefnyddio sylweddau - yn helpu i sicrhau ffocws ar ganlyniadau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth ac ar ansawdd eu bywydau.
19. Mae'r themâu traws-bynciol canlynol yn gonglfaen i ddrafftio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Oedolion Iau:
- **Ffocws ar ddefnyddwyr.** Mae *Adeiladu ar Gyfer y Dyfodol (1999)* yn galw am safonau sy'n "focus on the key areas that most affect the quality of life experienced by service users, as well as physical standards" [4.48]. Mae'r broses ymgynghori ar gyfer datblygu'r safonau, ac ymchwil ddiweddar, yn cadarnhau pwysigrwydd y pwyslais hwn ar ganlyniadau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth. Wrth gymhwyso'r safonau, bydd y rheolyddion yn edrych am dystiolaeth fod cyfleusterau, adnoddau, polisiau, gweithgareddau a gwasanaethau'r cartref yn arwain at ganlyniadau positif ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth a'u cyfranogaeth weithgar.
 - **Addasrwydd at y diben.** Mae'r pwerau rheoleiddiol sy'n cael eu darparu gan y Ddeddf Safonau Gofal wedi'u llunio i sicrhau bod

rheolwyr, staff ac adeiladau cartrefi gofal yn “addas at eu diben”. Wrth gymhwyso’r safonau, bydd y rheolyddion yn edrych am dystiolaeth fod cartref - p’un a yw’n darparu lleoliad hir-dymor, adsefydliad byr-dymor, gofal nyrsio neu wasanaeth arbenigol - yn llwyddo i gyrraedd ei nodau a’i amcanion datganedig.

- **Cynwysfawredd.** Mae bywyd mewn cartref gofal yn cynnwys ystod o wasanaethau a chyfleusterau a all fod yn fwy pwysig neu’n llai pwysig i wahanol ddefnyddwyr gwasanaeth. Wrth gymhwyso’r safonau, bydd y rheolyddion yn pwysu a mesur sut mae’r pecyn gwasanaeth cyfan sy’n cael ei gynnig gan y cartref gofal yn cyfrannu at anghenion a dewisiadau cyffredinol y defnyddwyr gwasanaeth o ran gofal personol a gofal iechyd, a sut mae’r cartref yn gweithio gyda gwasanaethau/proffesiynolion eraill i sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gynnwys yn y gymuned.
- **Dewis positif.** Mae’r broses ymgynghori yn cadarnhau bod rhai pobl yn byw mewn cartrefi gofal nid oherwydd dewis positif gwybodus ond fel dewis olaf. Wrth gymhwyso’r safonau, bydd y rheolyddion yn edrych am dystiolaeth fod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu derbyn i gartref, ac yn aros mewn cartref, am mai dyna’r lle y maent yn dymuno bod ynddo a dyna’r lle y gellir bodloni eu hanghenion orau.
- **Bodloni anghenion sydd wedi’u hasesu.** Wrth gymhwyso’r safonau, bydd yr archwilwyr yn edrych am dystiolaeth fod cartrefi gofal yn bodloni anghenion y defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi’u hasesu, a bod anghenion cyfnewidiol unigolion yn parhau i gael eu bodloni. Dylai’r cynllun asesu a’r cynllun defnyddiwr gwasanaeth sy’n cael ei weithredu yn y cartref gofal gael ei seilio ar y cynllun rheoli gofal unigol a’r dyfarniad mewnbwn nyrsio cofrestredig (os yw’n berthnasol) a gynhyrchir gan wasanaethau cymdeithasol lleol a staff NHS pan fyddant yn prynu’r gwasanaeth. Dylid asesu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth sy’n cael eu hariannu’n breifat gan y cartref gofal cyn iddynt gael cynnig lle.
- **Gwasanaethau o ansawdd.** Mae agenda foderneiddio’r Cynulliad, gan gynnwys y fframwaith rheoleiddio newydd, yn anelu at sicrhau mwy o sicrwydd am wasanaethau o ansawdd yn hytrach na gorfod byw gyda’r ail orau. Wrth gymhwyso’r safonau, bydd y rheolyddion yn chwilio am dystiolaeth o ymroddiad i wella cyson, gwasanaethau o ansawdd uchel, a chymorth, llety a chyfleusterau a fydd yn sicrhau ansawdd bywyd ac iechyd da i’r defnyddwyr gwasanaeth.
- **Gweithlu o ansawdd.** Mae rheolwyr a staff cymwys wedi’u hyfforddi’n dda yn sylfaenol i sicrhau gofal o ansawdd da i’r defnyddwyr gwasanaeth. Mae’r Sefydliad Hyfforddi i’r Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, SHGCP (TOPSS), yn datblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer staff gofal, gan gynnwys cymwyseddau ymgynefino a rhaglenni sylfaen. Ers 1

Hydref 2001 mae swyddogaethau SHGCP yng Nghymru wedi cael eu cyflawni gan Gyngor Gofal Cymru. Wrth gymhwyso'r safonau, bydd y rheolyddion yn cymryd i ystyriaeth dystiolaeth fod rheolwyr a staff cofrestredig yn cwrdd â gofynion SHGCP ac yn cydymffurfio ag unrhyw god ymarfer a gyhoeddir gan Gyngor Gofal Cymru.

GWERTHOEDD ALLWEDDOL

20. Sylfeirir y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Oedolion Iau ar egwyddorion sylfaenol penodol. Wrth gymhwyso'r safonau hyn, bydd y rheolyddion yn edrych am dystiolaeth fod y gwerthoedd allweddol canlynol yn cydategu polisiau a gweithrediadau cartrefi gofal o ddydd i ddydd ac yn sail iddynt:
- **Annibyniaeth** - Hybu annibyniaeth, hunan-benderfyniaeth a dewis unigolion, a rheolaeth ar wneud penderfyniadau;
 - **Cyrhaeddiad** - Adnabod gallu unigolion a'u potensial ar gyfer datblygiad personol, a rhwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol i gyrraedd eu potensial;
 - **Dinasyddiaeth** - Cadw hawliau sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth o dan gyfraith y DU a Deddf Hawliau Dynol 1998, gan gynnwys amddiffyniad rhag gwahaniaethu, harasio, ecsbloetio neu gam-drin, esgeuluso, trin mewn ffordd ddiraddiol neu annynol;
 - **Unigoliaeth** - Parch at unigoliaeth, preifatrwydd ac urddas, a chynnal hunan-barch ym mhob sefyllfa;
 - **Amrywiaeth** - Parch at oedran, amrywiaeth ethnig a diwylliannol, a hybu cyfleoedd cyfartal;
 - **Lles** - Hybu lles, corfforol, emosiynol ac ysbrydol;
 - **Cynhwysiant** - Hybu cynhwysiant cymdeithasol ac economaidd a chymryd rhan ym mywyd y gymuned;

DEHONGLI

Yn y datganiad hwn –

ystyr 'ASGC' yw Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru;

ystyr 'DSG' yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr 'person cofrestredig' yw darparwr cofrestredig neu reolwr cofrestredig;

ystyr 'y Rheoliadau' yw Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002; oni bai i fwriad croes ymddangos, mae cyfeiriad at reoliad yn gyfeiriad at reoliad yn Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002.

ystyr 'y rheolwr'

(i) pan nad yw'r person sy'n rhedeg y cartref hefyd yn rheolwr, yw'r rheolwr cofrestredig;

(ii) pan yw'r person sy'n rhedeg y cartref hefyd yn rheolwr, yw'r person hwnnw.

ADRAN UN: DEWIS CARTREF

SAFON 1: GWYBODAETH

CANLYNIAD:

Mae gan ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud dewis gwybodus ynglŷn â lle i fyw.

SAFON :

- 1.1 Mae'r person cofrestredig yn llunio datganiad o ddiben cyfoes sy'n nodi nodau, amcanion ac athroniaeth y cartref, ei wasanaethau a'i gyfleusterau, a thelerau ac amodau; ac yn darparu canllawiau i'r cartref i bob darpar ddefnyddiwr gwasanaeth;
- 1.2 Mae'r canllawiau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth yn nodi gwybodaeth glir a hygyrch gan gynnwys:
 - crynodeb o ddiben y cartref
 - disgrifiad o'r llety, y cymorth a'r cyfleusterau (gan gynnwys unrhyw wasanaethau arbenigol)
 - nifer y lleoedd a ddarperir a'r bobl y bwriedir y gwasanaeth ar eu cyfer
 - cymwysterau a phrofiad perthnasol y darparwydd cofrestredig, y rheolwr a'r staff
 - termau contract allweddol, yn cynnwys derbyniad i'r cartref, meddiannaeth a therfynu contract
 - y ffioedd sy'n cael eu codi, beth y maent yn ei gynnwys, a chostau 'pethau ychwanegol'
 - barn y defnyddwyr gwasanaeth ar y cartref (arolygon defnyddwyr)
 - copi, neu grynoded, o'r archwiliad diweddaraf, y weithdrefn gwyno, a gwybodaeth ar sut i gysylltu â swyddfa leol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru a'r awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd lleol.
- 1.3 Mae canllawiau'r defnyddiwr gwasanaeth a gwybodaeth arall am y cartref ar gael ar ffurfiau sy'n addas i bobl y mae'r cartref wedi'i fwriadu ar eu cyfer (e.e. ieithoedd priodol, lluniau, fideo, sain neu esboniad).

SAFON 2: ASESIAID ANGHENION

CANLYNIAD:

Mae dyheadau ac anghenion darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hasesu.

SAFON:

- 2.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau mai dim ond ar sail asesiad llawn gan bobl a hyfforddwyd ar gyfer hynny, sy'n rhoi cyfle i'r darpar ddefnyddiwr gwasanaeth ddefnyddio dull priodol o gyfathrebu, y caiff defnyddwyr newydd y gwasanaeth eu derbyn.
- 2.2 Ar gyfer unigolion a gyfeiriwyd drwy Reoli Gofal, mae'r person cofrestredig yn cael crynodeb o'r asesiad Rheoli Gofal sengl (iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) (wedi'i integreiddio gyda'r Dull Rhaglen Ofal ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl) a chopi o'r Cynllun Gofal sengl.
- 2.3 Ar gyfer unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain (h.y. heb Asesiad Rheoli Gofal / Cynllun Gofal) mae'r cartref yn cynnal asesiad anghenion (gan gyfarfod â'r person yn ei amgylchedd byw ei hun pan fo hynny'n bosibl) sy'n cynnwys:
 - llety addas a chymorth personol
 - addysg, hyfforddiant neu / neu alwedigaeth ystyrlon
 - cysylltiad â'r teulu neu â'r gymdeithas
 - asesu a rheoli risg
 - incwm digonol
 - anghenion diwylliannol ac anghenion ffydd
 - gofal corfforol a gofal iechyd meddwl
 - anghenion penodol sy'n gysylltiedig ag anhwylder a mewnbwn arbenigol
 - darparu offer anabledd, gan gynnwys trefniadau ar gyfer talu a chyflenwi
 - rhaglen drin / adsefydlu
 - dull cyfathrebu
 - cydnawsedd ag eraill sy'n byw yn y cartref

- 2.4 Mae'r cartref yn datblygu ar y cyd â phob darpar ddefnyddiwr gwasanaeth Gynllun Defnyddiwr Gwasanaeth unigol sy'n gyson â'r Asesiad Rheoli Gofal a'r Cynllun Gofal neu asesiad anghenion y cartref ei hun (gweler Safon 6 Cynllun y Defnyddiwr Gwasanaeth).
- 2.5 Mae'r mewnbwn nyrsio cofrestredig sydd ei angen ar ddefnyddwyr gwasanaeth mewn cartrefi sy'n darparu gofal nyrsio yn cael ei benderfynu gan nyrsys cofrestredig sy'n defnyddio offeryn asesu cydnabyddedig, gan gymryd canllawiau'r Cynulliad i ystyriaeth.
- 2.6 Mae anghenion adsefydlu ac anghenion therapiwtig yn cael eu hasesu gan broffesiynolion iechyd cofrestredig drwy ddefnyddio dulliau asesu cydnabyddedig.
- 2.7 Mae unrhyw gyfyngiadau posibl ar ddewis, rhyddid, gwasanaethau neu gyfleusterau – wedi'u seilio ar anghenion arbenigol a risg – sy'n debygol o ddod yn rhan o Gynllun unigol darpar ddefnyddiwr gwasanaeth, yn cael eu trafod gyda darpar ddefnyddiwr gwasanaeth yn ystod yr asesiad.
- 2.8 Cymerir anghenion a buddiannau'r teulu a'r gofalmwyr i ystyriaeth, yn ddarostyngedig i gytundeb y defnyddiwr gwasanaeth.

SAFON 3: BODLONI ANGHENION

CANLYNIAD:

Mae darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn gwybod y bydd y cartref y maent yn ei ddewis yn bodloni eu hanghenion a'u dyheadau.

SAFON :

- 3.1 Gall y person cofrestredig ddangos bod y cartref yn gallu bodloni'r anghenion sydd wedi'u hasesu (gan gynnwys anghenion arbenigol) ar gyfer unigolion sy'n cael eu derbyn i'r cartref.
- 3.2 Mae pob gwasanaeth arbenigol a gynigir (ee gwasanaethau i bobl â phroblemau iechyd meddwl, nam synhwyraidd, anableddau corfforol, anableddau dysgu, problemau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau pontio, gofal canolradd neu ofal seibiant) wedi'i seilio'n amlwg ar arferion da cyfredol, ac yn adlewyrchu canllawiau arbenigol a chlinigol perthnasol.
- 3.3 Darperir ar gyfer anghenion a dewisiadau cymunedau ethnig lleiafrifol penodol a grwpiau cymdeithasol / diwylliannol neu grefyddol a chaiff yr anghenion a'r dewisiadau hynny eu deall a'u bodloni.
- 3.4 Mae gan y staff yn unigol ac yn gyfunol y medrau a'r profiad i gyflwyno'r gwasanaethau a'r gofal y mae'r cartref yn cynnig ei ddarparu.

- 3.5 Mae'r staff yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'r darpar ddefnyddwyr gwasanaeth drwy ddefnyddio'r dull cyfathrebu sydd orau gan yr unigolyn
- 3.6 Mae'r darpar ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n mynd i'r cartref am gyfnod o driniaeth arbenigol neu adsefydlu yn cael gwybodaeth glir am ddiben, hyd a gofynion y rhaglen.
- 3.7 Mae'r cartref yn cadarnhau bod y darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael gwybodaeth am gynlluniau eiriolaeth annibynnol / hunan-eiriolaeth drwy gydol y broses o ddewis cartref.
- 3.8 Nid yw'r cartref yn cynnig lle i rywun nad yw'n gallu bodloni ei anghenion, nac i rywun nad yw'n gallu cyfathrebu ag ef, ac mae'n rhoi esboniad ysgrifenedig o'r rhesymau dros wrthod gwneud hynny i ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth (ac i'r Rheolwr Gofal lle bo'n gymwys).
- 3.9 Nid yw'r cartref yn derbyn i ofal hir dymor unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth a leolir ar gyfer gofal canolradd / byr dymor, onid yw'r gofynion a nes y mae'r gofynion ynghylch gwybodaeth, asesu a chynllunio unigol (Safonau 1, 2, 3 a 6) yn cael eu bodloni. Gweler hefyd Safonau 37.3 a 40.3 (cyfleusterau); 29.1 a 24.3 (staffio).

SAFON 4: YMWELIADAU PRAWF

CANLYNIAD:

Mae gan ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth gyfle i ymweld â'r cartref â 'rhoi prawf' arno.

SAFON 4

- 4.1 Mae'r person cofrestredig yn gwahodd y darpar ddefnyddwyr gwasanaeth i ymweld â'r cartref a rhoi prawf ar fyw yno, cyn gwneud penderfyniad i symud yno, ac os yw'n bosibl caiff derbyniadau sydd heb eu cynllunio eu hosgoi.
- 4.2 Mae ymweliad prawf hanner-diwrnod o leiaf â'r cartref (yn cynnwys aros dros nos os yn bosibl) yn cael ei gynnig, gan gynnwys cyfle i ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth (gyda'i deulu, ei gyfeillion, ei eiriolwr, ei gyfieithydd fel y bo'n briodol) i wneud y canlynol:
- cyfarfod â'r defnyddwyr gwasanaeth (heb i'r staff na'r gofalwyr fod yn bresennol os yw'n briodol)
 - cyfarfod â'r staff (heb i'r gofalwyr fod yn bresennol os yw'n briodol)

- gweld yr ystafell y byddai'r person yn byw ynddi a'r mannau cyffredin a'r tiroedd
 - cael pryd o fwyd
 - trafod sut y gall y cartref fodloni gofynion y person
 - gweld y math o gofnodion sy'n cael eu cadw am y defnyddwyr gwasanaeth.
- 4.3 Mae cyfnod preswyl prawf i 'ymgartrefu' sy'n dri mis o leiaf yn cael ei gynnig ar gyfer lleoliadau o fwy na chwe mis, ac wedyn adolygiad o'r lleoliad prawf gyda'r defnyddiwr gwasanaeth, pan ofynnir i'r defnyddwyr presennol ynghylch a yw'r darpar breswilydd newydd yn cydweddu â hwy.
- 4.4 Nid yw derbyniad brys yn golygu hawl nac gofyniad i aros yn yr un cartref, ac mae'r defnyddiwr gwasanaeth sydd wedi'i leoli mewn achos brys yn cael ei asesu'n llawn a'i adleoli os nad yw'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn briodol i'w anghenion.
- 4.5 Pan fydd derbyniad brys, mae'r cartref yn ymrwymo i roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth o fewn 48 awr ynglyn ag agweddau, rheolau a gorchwylion allweddol y gwasanaeth, ac i fodloni pob maen prawf derbyn arall a nodir yn Safonau 2 - 3 o fewn pum diwrnod gwaith.

SAFON 5: Y CONTRACT

CANLYNIAD:

Mae gan bob defnyddiwr gwasanaeth gontract ysgrifenedig unigol gyda'r cartref neu ddatganiad ysgrifenedig unigol o delerau ac amodau'r cartref.

SAFON :

- 5.1 Mae'r person cofrestredig yn datblygu contract /datganiad o delerau ac amodau ysgrifenedig sydd wedi'i gostio rhwng y cartref a'r defnyddiwr gwasanaeth, neu rhwng y cartref a pherson arall mewn perthynas â'r defnyddiwr gwasanaeth, ac yn cytuno arno â phob darpar ddefnyddiwr gwasanaeth.
- 5.2 Mae'r contract yn pennu'r canlynol:
- yr ystafelloedd sydd i'w meddiannu
 - telerau ac amodau'r feddiannaeth gan gynnwys cyfnod terfynu (e.e cartref hir dymor, lleoliad byr dymor, seibiant sydd wedi'i gynllunio, gofal canolradd / adsefydlu)

- y cymorth, y cyfleusterau a'r gwasanaethau personol a ddarperir, gan gynnwys unrhyw wasanaethau arbenigol / ymyrraeth therapiwtig, ac unrhyw bolisiâu neu reolau a all gyfyngu ar ryddid personol
 - y ffioedd a godir, beth y maent yn ei gynnwys, a pha bryd y mae rhaid eu talu a chan bwy, a chostau'r cyfleusterau neu'r gwasanaethau nad yw'r ffioedd yn eu cynnwys
 - hawliau a chyfrifoldebau'r ddau barti, a phwy sy'n gyfrifol os torrir y contract
 - copi o Gynllun y Defnyddiwr Gwasanaeth (gweler Safon 6) yn amlinellu'r camau / gweithgareddau i gyrraedd nodau personol a dyheadau ar gyfer y dull o fyw
 - y trefniadau ar gyfer adolygu anghenion a chynnydd, a diweddaru Cynllun y Defnyddiwr Gwasanaeth;
 - elfennau'r Cynllun Gofal Rheoli Gofal (lle bo'n gymwys) sydd i'w darparu y tu allan i'r cartref.
- 5.3 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth eu teuluoedd, eu cyfeillion a/neu eu heiriolwr, fel y bo'n briodol, wrth lunio'r contract.
- 5.4 Mae'r Contract ar ffurf / mewn iaith sy'n briodol i anghenion bob defnyddiwr gwasanaeth, a/neu mae ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i esbonio'r contract i'r defnyddiwr gwasanaeth.
- 5.5 Mae gan y defnyddiwr gwasanaeth gopi o'r Contract, sydd wedi'i lofnodi gan y person cofrestredig a chan y parti arall.

ADRAN 2. ANGHENION A DEWISIADAU UNIGOL

SAFON 6 : CYNLLUN Y DEFNYDDIWR GWASANAETH

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth y gwybod sut mae eu hanghenion sydd wedi'u hasesu a'u nodau personol wedi'u cynnwys yn eu Cynllun unigol

SAFON:

- 6.1 Mae'r person cofrestredig yn llunio Cynllun unigol gyda phob defnyddiwr gwasanaeth ac yn cytuno arno, a gall y cynllun hwnnw gynnwys triniaeth ac adsefydliad, gan ddisgrifio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd i'w darparu gan cartref, a sut y bydd y gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion a dyheadau yn awr ac yn y dyfodoll a sut y byddant yn cyflawni'r nodau.
- 6.2 Mae'r Cynllun yn gyson ag unrhyw Asesiad Rheoli Gofal / Cynllun Gofal sengl neu asesiad y cartref ei hun ac mae'n cynnwys pob agwedd ar gymorth personol a chymdeithasol ac anghenion gofal iechyd, fel y'u nodir yn Safon 2.
- 6.3 Mae'r Cynllun yn nodi sut caiff yr anghenion presennol a'r anghenion arbenigol a ragwelir eu bodloni (er enghraifft drwy ymyriadau positif a gynllunnir; rhaglenni adsefydlu a rhaglenni therapiwtig; amgylcheddau strwythuredig; datblygu iaith a chyfathrebu; addasiadau ac offer; cymorth cyfathrebu un-wrth-un).
- 6.4 Mae'r Cynllun yn disgrifio unrhyw gyfyngiadau ar ddewis a rhyddid (y cytunir arnynt gyda'r defnyddiwr gwasanaeth) a orfodir gan raglen arbenigol.
- 6.5 Ar sail asesiad o'r risgiau, mae'r Cynllun yn sefydlu gweithdrefnau unigol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd yn debyg o fod yn ymosodol neu debyg o achosi niwed i eraill neu i'w hunain, gan ganolbwyntio ar ymddygiad positif, gallu a bodlonrwydd.
- 6.6 Caiff y Cynllun ei lunio gyda chyfranogiad y defnyddiwr gwasanaeth, ynghyd â'i deulu, ei gyfeillion a/neu ei eiriolwr fel y bo'n briodol, ac asiantaethau / arbenigwyr perthnasol.
- 6.7 Trefnir bod y Cynllun ar gael mewn iaith ac ar ffurf y gall y defnyddiwr gwasanaeth ei deall (e.e. gweledol graffig, Cymraeg printiedig syml, llawlyfr i'r byddar a'r dall, esboniad, fidio mewn iaith Arwyddion Prydain), a chedwir ef gan y defnyddiwr gwasanaeth oni bai bod yna resymau clir (a chofnodedig) dros beidio â gwneud hynny.

- 6.8 Mae gweithiwr allweddol (neu diwtor personol mewn colegau arbenigol; nyrs ddynodedig os yw'r defnyddiwr yn cael gofal nyrsio) sy'n gallu cyfathrebu â'r unigolyn ac sy'n deall ei dreftadaeth hiliol neu ddiwylliannol yn cael ei ddyrannu i bob defnyddiwr gwasanaeth, gyda chyfranogiad llawn y defnyddiwr gwasanaeth.
- 6.9 Rhoddir gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth am rolau a chyfrifoldebau priodol y Rheolwr Gofal, y gweithiwr allweddol a'r Eiriolwr, ac mae'n gwybod sut i gysylltu â hwy.
- 6.10 Mae'r Cynllun yn cael ei adolygu gyda'r defnyddiwr gwasanaeth (gan gynnwys proffesiynolion arwyddocaol, a'r teulu, cyfeillion ac eiriolwyr fel y cytunir gyda'r defnyddiwr gwasanaeth) ar gais y defnyddiwr gwasanaeth neu o leiaf bob chwe mis ac yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu anghenion sy'n newid; mae'r newidiadau y cytunir arnynt yn cael eu cofnodi.

SAFON 7 : GWNEUD PENDERFYNIADAU

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn gwneud penderfyniadau am eu bywydau gyda chymorth yn ôl yr angen.

SAFON :

- 7.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y staff yn parchu hawliau'r defnyddwyr gwasanaeth i wneud penderfyniadau. Dim ond drwy'r broses asesu sy'n cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth, y mae'r hawliau hynny yn cael eu cyfyngu, a chofnodir unrhyw gyfyngiadau yng Nghynllun y Defnyddiwr Gwasanaeth unigol.
- 7.2 Mae'r staff yn darparu'r wybodaeth, yr help a'r cymorth cyfathrebu sydd ei angen ar ddefnyddwyr gwasanaeth i wneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain.
- 7.3 Mae'r staff yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth, os dymunant hynny, i ddod o hyd i grwpiau eiriolaeth annibynnol leol / grwpiau hunan-eiriolaeth a chymryd rhan ynddynt a/neu ddod o hyd i gymorth gan rywun sy'n rhannu anabledd treftadaeth neu ddyheadau'r person.
- 7.4 Mae'r staff yn cofnodi sut mae dewisiadau unigol wedi'u gwneud; a cofnodi enghreifftiau pan fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud gan bobl eraill, a pham.
- 7.5 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn trafod eu harian eu hunain; pan fydd angen cymorth a hyfforddiant, mae'r rhesymau drostynt a'r dull o roi cymorth yn cael eu dogfennu a'u hadolygu.

- 7.6 Dim ond er lles gorau'r person, yn gyson â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r cartref o dan y gyfraith, y mae cyfyngiadau ar gyfleusterau, ar ddewis neu ar weithgareddau yn cael eu gwneud i atal hunan-niwed neu hunan-esgeulustod, neu gamdrin eraill neu eu niweidio.
- 7.7 Pan fydd angen rhywun sy'n cael eu penodi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu asiant arall, mae'r sawl a benodir / yr asiant yn annibynnol ar y gwasanaeth. Os nad oes asiant annibynnol ar gael, gellir penodi aelod o staff yn unol â rheoliad 20. Os yw hyn yn digwydd:
- hysbysir yr Adran Gwaith a Phensiynau, fel y bo'r angen;
 - cedwir cofnodion o'r holl daliadau i mewn ac allan.

SAFON 8: CYFRANOGI

CANLYNIAD:

Ymgynghorir â'r defnyddwyr gwasanaeth am bob agwedd ar fywyd yn y cartref ac maent yn cymryd rhan yn yr agweddau hynny i gyd.

SAFON

- 8.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cynnig i'r defnyddwyr gwasanaeth gyfrannu at ddatblygu polisiau, gweithdrefnau a gwasanaethau a'u hadolygu, a chymryd rhan yn y gwaith o redeg y cartref o ddydd i ddydd.
- 8.2 Mae'r cartref yn darparu y defnyddwyr gwasanaeth â gwybodaeth gynhwysfawr, hawdd ei chael, y gellir ei deall ac sy'n gyfoes, mewn fformatau addas, ynghylch ei bolisiau, ei weithdrefnau a'i wasanaethau; a chymorth cyfathrebu priodol.
- 8.3 Mae cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan (ac fe'u galluogir i gymryd rhan drwy ee ddarparu dehonglwyr a chyfieithwyr, hyfforddiant, dogfennau mewn ffurfiau priodol) yn y gweithgareddau canlynol:
- ymuno â chyfarfodydd staff, grwpiau polisi a fforymau eraill;
 - cael cynrychiolwyr ar strwythurau rheoli;
 - cymryd rhan wrth ddewis staff a defnyddwyr eraill y gwasanaeth;
 - holiaduron bodlonrwydd defnyddwyr, trafodaethau rhwng unigolion a grwpiau (gweler safon 30 Sicrwydd ansawdd).

- 8.4 Drwy ymgynghori â defnyddwyr presennol y gwasanaeth y mae newidiadau yn cael eu gwneud i ddatganiad y cartref o'i ddiben.
- 8.5 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael adborth am ganlyniadau'r ymgynghoriad a'u cyfranogiad.

SAFON 9: CYMRYD RISGIAU

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth i gymryd risgiau fel rhan o ddull annibynnol o fyw.

SAFON :

- 9.1 Mae'r person cofrestredig yn galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i gymryd risgiau cyfrifol, gan sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda i seilio penderfyniadau arni, o fewn cyd-destun Cynllun unigol y defnyddiwr gwasanaeth a strategaethau asesu risgiau a rheoli risgiau'r cartref.
- 9.2 Mae risg yn cael ei hasesu cyn derbyn y defnyddiwr yn unol â phrotocolau'r gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol ac mewn trafodaeth gyda'r defnyddiwr gwasanaeth ac arbenigwyr perthnasol; ac mae strategaethau rheoli risgiau yn cael eu cytuno, eu cofnodi yn y Cynllun Unigol, a'u hadolygu.
- 9.3 Mae camau yn cael eu cymryd i gywiro risgiau a pheryglon a welwyd, a rhoddir hyfforddiant i'r defnyddwyr gwasanaeth am eu diogelwch personol, er mwyn osgoi cyfyngu ar weithgareddau neu ddewisiadau dewisol y defnyddiwr gwasanaeth.
- 9.4 Mae'r cartref yn ymateb yn brydlon i absenoldebau heb esboniad gan y defnyddwyr gwasanaeth yn ôl gweithdrefn ysgrifenedig.

SAFON 10: CYFRINCHEDD

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth y gwybod bod gwybodaeth amdanynt yn cael ei thrin yn briodol, a bod materion sy'n gyfrinachol iddynt yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

SAFON:

- 10.1 Mae'r staff yn parchu'r wybodaeth a roddir gan y defnyddwyr gwasanaeth yn gyfrinachol, ac yn trafod gwybodaeth am y defnyddwyr gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig y cartref a Deddf Diogelu Data 1998 a gofynion cyfreithiol eraill, ac er lles gorau y defnyddiwr gwasanaeth.
- 10.2 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael gweld polisïau a gweithdrefnau'r cartref ar gyfrinachedd a sut i ddelio â thor-cyfrinachedd, ac mae'r staff yn esbonio'r polisi a/neu'n gwneud yn sicr bod y defnyddwyr gwasanaeth yn ei ddeall.
- 10.3 Mae cofnodion unigol y defnyddwyr gwasanaeth yn gywir, yn ddiogel ac yn gyfrinachol.
- 10.4 Mae'r staff yn gwybod pan fydd rhaid rhannu'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi iddynt yn gyfrinachol gyda'u rheolwyr neu gydag eraill.
- 10.5 Mae gan y cartref gytundeb ysgrifenedig ar gyfrinachedd gyda phob asiantaeth gofal cymdeithasol / gofal iechyd sy'n darparu gwasanaethau i bobl sy'n byw yn y cartref, gan nodi'r egwyddorion sy'n llywodraethu rhannu'r wybodaeth honno.

ADRAN 3. DULL O FYW

SAFON 11: DATBLYGIAD PERSONOL

CANLYNIAD:

Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth gyfleoedd ar gyfer datblygiad personol.

SAFON :

- 11.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth gyfleoedd i feithrin a datblygu medrau cymdeithasol, medrau emosiynol, medrau cyfathrebu a medrau byw'n annibynnol.
- 11.2 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth gyfleoedd i ddysgu a defnyddio medrau bywyd ymarferol (ee.hyfforddiant hunanarddel a hyder), gan gynnwys hyfforddiant sy'n cael ei harwain gan y defnyddiwr.
- 11.3 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth sydd ar y rhaglenni triniaeth ac arferiad yn cael ymyriadau, cwnsela a therapi sy'n effeithiol, ac wedi'u dilysu'n broffesiynol.
- 11.4 Mae ymyriadau arbenigol gan staff sydd wedi'u hyfforddi yn cael eu cynnig i'r defnyddwyr gwasanaeth sydd ag aml-anableddau cymhleth.

SAFON 12: ADDYSG A GALWEDIGAETH

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cymryd rhan mewn cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n eu galluogi i archwilio eu llawn botensial.

SAFON

- 12.1 Mae'r staff yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth i ddod o hyd i swyddi priodol a'u cadw, i barhau â'u haddysg neu eu hyfforddiant, ac/neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon.
- 12.2 Gall y defnyddwyr gwasanaeth barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau yr oeddynt yn cymryd rhan ynddynt cyn dod i'r cartref, os dymunant, neu ailddechrau gweithgareddau os ydynt yn newid eu lleoliad.
- 12.3 Mae'r staff yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth i ddarganfod a dilyn cyfleoedd ar gyfer addysg bellach, dysgu o bell, a hyfforddiant galwedigaethol, hyfforddiant llythrennedd a rhifedd.

- 12.4 Mae'r staff yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth i feithrin a chadw cysylltiadau â gwasanaethau cyngor gyrfaedd, cyflogwyr lleol a chanolfannau gwaith.
- 12.5 Mae'r staff yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth i ddarganfod gwybodaeth am gyfleoedd i gael swyddi cyflogedig, swyddi gyda chymorth neu swyddi gwirfoddolwyr / lleoliadau gwaith therapiwtig neu gynlluniau hyfforddi'n gysylltiedig â gwaith ac i dderbyn y cyfleoedd hynny.
- 12.6 Mae'r staff yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth gyda phroblemau budd-daliadau/ problemau ariannol neu'n eu cyfeirio at bobl eraill fel y bo'n briodol.

SAFON 13: CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL A CHYNHWYSIANT CYMDEITHASOL

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o'r gymuned leol.

SAFON

- 13.1 Mae'r person cofrestredig yn rhoi cyfleoedd i'r defnyddwyr gwasanaeth fod yn rhan o'r gymuned leol a chymryd rhan ynddi yn unol â'r anghenion sydd wedi'u hasesu a'r Cynlluniau unigol.
- 13.2 Mae'r staff yn galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i integreiddio â bywyd y gymuned drwy'r canlynol:
- gwybodaeth am wasanaethau, cyfleusterau, a gweithgareddau yn y gymuned leol (ee siopau, llyfrgell, sinema, tafarnau, canolfannau hamdden, mannau addoli, canolfannau diwylliannol) a chymorth i'r defnyddwyr gwasanaeth eu defnyddio
 - ymwybyddiaeth o hawliau'r defnyddwyr gwasanaeth i gael defnyddio cyfleusterau cyhoeddus o dan Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
 - cynnal perthynas gymdogol â'r gymuned
 - sicrhau bod gwybodaeth a chynghor ar gael ynghylch gweithgareddau, cymorth ac adnoddau lleol sy'n cael eu cynnig gan gyrff arbenigol
 - sicrhau mynediad i drafnidiaeth – trafnidiaeth leol gyhoeddus, tacsis y gellir eu cael yn rhwydd, deialu taith, cerbydau (dilabel) y cartref ei hun – a chymorth i'w defnyddio, er mwyn galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i ddilyn eu dull dewisol o fyw a'u gweithgareddau dewisol.

- 13.3 Galluogir y defnyddwyr gwasanaeth i fod yn weithgar yn wleidyddol ac i bleidleisio.
- 13.4 Mae'r amser, a'r cymorth, y mae'r staff yn rhoi i'r defnyddwyr gwasanaeth y tu allan i'r cartref – a hynny'n cael eu darparu'n hyblyg, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau – yn rhan gydnabyddedig o ddyletswyddau'r staff (gweler Safonau 22 Rolau'r Staff a 24 Tîm y staff).
- 13.5 Mae'r cartref yn gwerthfawrogi amrywiaeth hiliol a diwylliannol y defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned y mae wedi'i leoli ynddi ac yn ceisio eu hadlewyrchu.

SAFON 14: HAMDDEN

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden sy'n adlewyrchu eu dewisiadau unigol.

SAFON:

- 14.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael mynd at ystod o weithgareddau hamdden priodol a dewis o'u plith.
- 14.2 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddilyn eu diddordebau a'u hobiau eu hunain.
- 14.3 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth ddewis o adloniant sy'n cael ei ddwyn i'r cartref (neu fetu arno).
- 14.4 Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth mewn lleoliadau hir-dymor y dewis o wyliau blynyddol o wythnos o leiaf y tu allan i'r cartref, y maent yn helpu i'w dewis a'u cynllunio.
- 14.5 Mae teithiau grwp yn cael eu cynllunio a'u dewis gan ddefnyddwyr sy'n rhannu'r un diddordebau.

SAFON 15: PERTHNASOEDD

CANLYNIAD:

Cynorthwyr defnyddwyr gwasanaeth i gynnal eu perthnasoedd personol, teuluol a rhywiol presennol, ac i ddatblygu rhai newydd, fel y bo'n briodol.

SAFON:

- 15.1 Mae'r staff yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth i gadw a datblygu cysylltiadau â'r teulu a chyfeillgarwch y tu mewn a'r tu allan i'r cartref o fewn fframwaith y Cynllun unigol.
- 15.2 Croesewir y teulu a'r cyfeillion, ac mae eu hymwneud ag arferion a gweithgareddau pob dydd yn cael ei annog, gyda chytundeb y defnyddiwr gwasanaeth.
- 15.3 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn dewis pwy y maent yn ei weld a pha bryd; cânt weld ymwelwyr yn eu hystafelloedd yn breifat.
- 15.4 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth gyfleoedd i gyfarfod â phobl a gwneud ffrindiau gyda phobl nad oes ganddynt eu hanabledd / salwch / caethiwed eu hunain.
- 15.5 Gall y defnyddwyr gwasanaeth ddatblygu a meithrin perthynas bersonol fynwesol â phobl o'u dewis a'i chadw a darperir gwybodaeth a chyfarwyddyd arbenigol i helpu'r defnyddiwr gwasanaeth i wneud penderfyniadau priodol.

SAFON 16: ARFERION POB DYDD

CANLYNIAD:

Perchir hawliau defnyddwyr gwasanaeth a chydabyddir eu cyfrifoldebau yn eu bywydau beunyddiol

SAFON:

- 16.1 Mae arferion pob dydd a rheolau ty y cartref yn hyrwyddo annibyniaeth, dewis unigol a rhyddid symud, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau y cytunir arnynt yn y Cynllun unigol a'r Contract.
- 16.2 Dim ond gyda chaniatâd yr unigolyn y mae'r staff yn mynd i mewn i ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r defnyddwyr gwasanaeth ac fel rheol yn eu presenoldeb, ac mae technegau wedi'u sefydlu (e.e. clychau drws, goleuadau sy'n fflachio, yn ôl yr anabledd) er mwyn sicrhau preifatrwydd i bob defnyddiwr gwasanaeth.

- 16.3 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth allwedd i'w hystafell wely / ystafell ymolchi eu hunain, y gellir eu cloi o'r tu mewn a'r tu allan, ac allwedd i ddrws blaen y ty.
- 16.4 Nid yw'r staff yn agor post y defnyddwyr gwasanaeth heb eu cytundeb.
- 16.5 Mae'r staff yn defnyddio'r dull cyfeirio sydd orau gan y defnyddwyr gwasanaeth, ac sydd wedi'i gofnodi yn y Cynllun unigol.
- 16.6 Mae'r staff yn siarad â'r defnyddwyr gwasanaeth ac yn rhyngweithio â hwy, ac nid â'i gilydd yn unig.
- 16.7 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn dewis pa bryd i fod ar eu pennau eu hunain neu mewn cwmni, a pha bryd i beidio ag ymuno â gweithgaredd.
- 16.8 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth fynediad 24-awr digyfngiad i'r cartref a'r tiroedd; mae gan ymwelwyr fynediad 24-awr sy'n dibynnu ar ganiatâd yr unigolyn a'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth.
- 16.9 Mae cyfrifoldeb y defnyddwyr gwasanaeth am dasgau cadw ty (coginio, glanhau ystafelloedd a mannau cyffredin, golchi, cynnal-a-chadw gerddi) wedi'i bennu yn y Canllawiau i'r Defnyddwyr Gwasanaeth a'r Cynllun unigol.
- 16.10 Gall y defnyddwyr gwasanaeth gadw ci cymorth (cwn tywys, cwn ar gyfer pobl anabl, a chwn gwranddo ar gyfer pobl fyddar); a gallant gadw anifail anwes addas gyda chytundeb y cartref ac os nad yw'n tramgwyddo diogelwch, iechyd neu heddwch pobl eraill sy'n byw yn y cartref.
- 16.11 Mae'r rheolau ar ysmegu, alcohol a chyffuriau wedi'u nodi'n glir yn y Contract.

SAFON 17: PRYDAU BWYD AC AMSERSAU BWYD

CANLYNIAD:

Mae deiet iachus yn cael ei gynnig i'r defnyddwyr gwasanaeth ac maent yn mwynhau eu prydau bwyd a'u hamserau bwyd.

SAFON:

- 17.1 Mae'r person cofrestredig yn hybu iechyd y defnyddwyr gwasanaeth a'u lles drwy ddarparu prydau bwyd maethlon, amrywiol, cytbwys sydd wedi'u cyflwyno'n ddeniadol mewn lleoliad cydnaws ac ar adegau hyblyg.

- 17.2 Mae dewis o fwydlenni yn cael ei gynnig i'r defnyddwyr gwasanaeth, sy'n cymryd i ystyriaeth eu hanghenion deietegol a diwylliannol, ac sy'n parchu eu dewisiadau unigol.
- 17.3 Mae prydau bwyd yn cael eu cynnig dair gwaith y dydd gan gynnwys o leiaf dau bryd bwyd sydd wedi'i goginio; ac mae ystod o ddiodydd a byrbrydau ar gael ar bob amser i ddiwallu anghenion unigol.
- 17.4 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth gweithredol i'w helpu i gynllunio, paratoi ac arlwyio prydau bwyd.
- 17.5 Gall y defnyddwyr gwasanaeth ddewis ble i fwyta a pha bryd, ac a ydynt am fwyta ar eu pennau eu hunain neu gydag eraill gan gynnwys y staff.
- 17.6 Mae gwaith paratoi ac arlwyio bwyd yn parchu anghenion diwylliannol a chrefyddol y defnyddwyr gwasanaeth.
- 17.7 Mae prydau bwyd yn hamddenol, yn bwyllog ac yn hyblyg i gyd-fynd â gweithgareddau ac amserlenni'r defnyddwyr gwasanaeth.
- 17.8 Mae anghenion maethol y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hasesu a'u hadolygu'n rheolaidd gan gynnwys ffactorau risg sy'n gysylltiedig â diffyg maeth a gordewdra.
- 17.9 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth y mae angen cymorth arnynt i fwyta neu sy'n cael eu bwydo'n artiffisial yn cael cymorth priodol tra'n cadw'r dewis ynghylch pa bryd, lle a pha beth y maent yn ei fwyta; ac yn cael cymorth i ddewis cymhorthion bwyta priodol.

ADRAN PEDWAR: CYMORTH PERSONOL A GOFAL IECHYD

SAFON 18: CYMORTH PERSONOL

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth personol yn y ffordd sydd orau ganddynt ac yn unol â'u hanghenion.

SAFON:

- 18.1 Mae'r staff yn rhoi cymorth personol a gofal nyrsio sensitif a hyblyg i uchafu preifatrwydd, urddas, annibyniaeth a rheolaeth y defnyddwyr gwasanaeth ar eu bywydau.
- 18.2 Cydymffurfir â dewisiadau'r defnyddwyr gwasanaeth ynglyn â sut y maent yn cael eu tywys, eu symud, eu cynorthwyo a'u trosglwyddo, ac mae'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny yn cael eu hesbonio.
- 18.3 Mae cymorth personol yn cael ei ddarparu'n breifat, a gofal agos yn cael ei ddarparu gan berson o'r un gender lle bynnag y bo'n bosibl ac os dyna yw dymuniad y defnyddiwr gwasanaeth.
- 18.4 Mae'r amserau ar gyfer codi / mynd i'r gwely, cael bath, prydau bwyd a gweithgareddau eraill yn hyblyg (gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau).
- 18.5 Pan fydd angen, mae cyfarwyddyd a chymorth ynglyn â hylendid personol (e.e. ymolchi, siafio) yn cael eu darparu.
- 18.6 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn dewis eu dillad, eu ffasiwn gwallt a'u colur eu hunain ac mae eu golwg yn adlewyrchu eu personoliaeth.
- 18.7 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth rywfaint o ddewis ynglyn â'r staff sy'n gweithio gyda hwy, megis staff o'r un cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol neu'r un gender. Dylid mynd i'r afael â hyn yn ystod yr asesiad.
- 18.8 Mae gan y defnyddiwr gwasanaeth y cymhorthion a'r offer technegol y mae arnynt eu hangen ar gyfer yr annibyniaeth fwyaf bosib (ac y mae'r staff wedi'i hyfforddi i'w gweithredu yn ôl yr angen), y penderfynwyd arnynt drwy asesiad proffesiynol, ac maent yn cael eu hadolygu a'u newid neu eu hamnewid yn brydlon wrth i anghenion y defnyddiwr gwasanaeth newid, ac yn cael eu cynnal-a-chadw'n rheolaidd.
- 18.9 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth a chynghor arbenigol ychwanegol yn ôl yr angen gan ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd ac eraill ar gyfer e.e. lleoli neu addasu offer.

18.10 Mae gofal nyrsio cyffredinol a seiciatrig yn cael ei ddarparu neu ei oruchwylio gan nyrsys cofrestredig fel a bennir yn y Cynllun unigol, ei fonitro a'i gofnodi, a'i adolygu'n rheolaidd.

18.11 Mae'r staff yn sicrhau cysondeb a dilyniant cymorth i ddefnyddwyr y gwasanaeth:

- drwy weithwyr allweddol dynodedig (y mae'r defnyddwyr gwasanaeth wedi helpu i'w dewis);
- drwy gofnodion unigol sy'n nodi'r drefn, hoffterau ac anhoffterau'r defnyddwyr gwasanaeth nad ydynt yn gallu cyfathrebu eu hanghenion a'u hoffterau yn hawdd;
- drwy bartneriaethau ag eiriolwyr, teulu, cyfeillion a phroffesiynolion perthnasol y tu allan i'r cartref, yn amodol ar ganiatâd y defnyddiwr gwasanaeth.

SAFON 19 : GOFAL IECHYD

CANLYNIAD:

Mae anghenion corfforol ac emosiynol y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu bodloni.

SAFON:

19.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod anghenion corfforol ac emosiynol gofal iechyd y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hasesu a'u cydnabod a bod gweithdrefnau yn eu lle i fynd i'r afael â hwy.

19.2 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth i'w gwneud yn fwy hwylus iddynt gymryd yr awenau a rheoli eu gofal iechyd eu hunain, gan gynnwys:

- cymorth i gael gweld gwybodaeth gyfoes am faterion iechyd cyffredinol, e.e. cynhwyster, atal cenhedlu, sgrinio rheolaidd
- cymorth i reoli eu hanhwylderau meddygol eu hunain (e.e. clefyd siwgr) lle bo'n bosibl
- cymorth i ddewis eu hymarferydd cyffredinol, i wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd / triniaeth feddygol eu hunain, ac i ofyn am ail farn feddygol
- cymorth i gael defnyddio cyfleusterau gofal iechyd yr NHS yn y gymdogaeth - tîm gofal sylfaenol, deintydd, optegydd, meddyg traed / podiatrydd, therapyddion, nyrsys cymunedol a nyrsys arbenigol

(e.e. nyrs arbenigol clefyd siwgr, nyrs iechyd meddwl), therapïau amgen

- cymorth i fynd i apwyntiadau cleifion allanol ac apwyntiadau eraill;
- cymorth i gael defnyddio cyfieithwyr ar y pryd annibynnol.

19.3 Mae iechyd y defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei fonitro ac mae cymhlethdodau a phroblemau posibl yn cael eu nodi ac ymdrinnir â hwy yn gynnar, gan gynnwys eu cyfeirio'n brydlon at arbenigedd priodol.

19.4 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth wiriadau iechyd o leiaf bob blwyddyn (gan gynnwys sylw i'r golwg a'r clyw; meddyginiaeth; salwch / anabledd nad yw'n gysylltiedig â'r anabledd / cyflwr sylfaenol).

19.5 Mae ymweliadau â'r defnyddwyr gwasanaeth gan ymarferwyr meddygol / gofal iechyd yn digwydd yn breifat.

SAFON 20: MEDDYGINIAETH

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cadw, yn rhoi ac yn rheoli eu meddyginiaeth eu hunain pan fo'n briodol, ac fe'u hamddiffynnir gan bolisiau a gweithdrefnau'r cartref ar gyfer ymdrin â meddyginiaethau.

SAFON:

20.1 Mae'r person cofrestredig a'r staff yn annog ac yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth i gadw, rhoi a rheoli eu meddyginiaethau eu hunain, o fewn fframwaith rheoli risg, ac yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefn y cartref ar gyfer derbyn, cofnodi, storio, trafod, rhoi a gwaredu meddyginiaethau.

20.2 Mae cydsyniad y defnyddwyr gwasanaeth i gael meddyginiaeth yn cael ei sicrhau a'i gofnodi yn y Cynllun unigol.

20.3 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth, yn dilyn asesiad eu bod yn gallu rhoi eu meddyginiaeth i'w hunain, le storio y gellir ei gloi, y mae staff gofal dynodedig sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn cael mynd iddo gyda chaniatâd y defnyddiwr gwasanaeth.

20.4 Cedwir cofnodion o'r holl feddyginiaethau sy'n cael eu derbyn, eu rhoi ac sy'n gadael y cartref neu'n cael eu gwaredu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gamdrafod.

20.5 Cedwir cofnod o'r feddyginiaeth gyfredol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth (gan gynnwys y rhai sy'n rhoi eu meddyginiaeth eu hun).

- 20.6 Mae meddyginiaethau yng ngofal y cartref yn cael eu trafod yn unol â chanllawiau Deddf Meddyginiaethau 1968, canllawiau Cymdeithas Frenhinol y Fferyllwyr, a gofynion Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 ac mae'r staff nyrsio'n glynu wrth Safonau Cyngor Canolog y Deyrnas Unedig (UKCC) ar gyfer rhoi'r meddyginiaethau hynny.
- 20.7 Caiff cyffuriau a reolir sy'n cael eu rhoi gan y staff eu cadw mewn cwpwrdd metel sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau (Cadw'n Ddiogel) 1973.
- 20.8 Caiff cyffuriau, gan gynnwys Cyffuriau a Reolir, ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn gofal nyrsio, eu rhoi gan ymarferydd meddygol neu gan nyrs gofrestredig.
- 20.9 Caiff pob meddyginiaeth, gan gynnwys Cyffuriau a Reolir (heblaw'r rhai i'w rhoi gan y defnyddwyr gwasanaeth i'w hunain), eu rhoi gan staff dynodedig sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Mae aelod dynodedig arall o'r staff sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn dyst pan fydd Cyffuriau a Reolir yn cael eu rhoi.

Rhaid i'r hyfforddiant meddyginiaethau ar gyfer staff gofal gael ei achredu a rhaid iddo gynnwys:

- gwybodaeth sylfaenol am sut y mae'r meddyginiaethau yn cael eu defnyddio a sut i adnabod ac ymdrin â phroblemau wrth eu defnyddio;
- yr egwyddorion y tu ôl i bob agwedd ar bolisi'r cartref ar drafod meddyginiaethau a'u cofnodi.

- 20.10 Cofnodir derbyn, rhoi a gwaredu Cyffuriau a Reolir yn y gofrestr Cyffuriau a Reolir.
- 20.11 Mae'r person cofrestredig yn gofyn am wybodaeth a chynghor gan fferylllydd ynghylch polisïau meddyginiaethau o fewn y cartref a'r meddyginiaethau sy'n cael eu rhoi ar gyfer unigolion yn y cartref.
- 20.12 Mae'r staff yn monitro cyflwr y defnyddiwr gwasanaeth sy'n cael meddyginiaeth ac yn galw'r ymarferydd cyffredinol i mewn os ydynt yn bryderus am unrhyw newid cyflwr a allai fod o ganlyniad i feddyginiaeth, ac yn annog adolygu'r feddyginiaeth yn rheolaidd.
- 20.13 Pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn marw, dylid cadw'r meddyginiaethau hyd nes iddi fod yn glir y bydd neu na fydd cwêst crwner.

SAFON 21: HENEIDDIO A MARWOLAETH

CANLYNIAD:

Mae heneiddio, salwch a marwolaeth defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu trafod gyda pharch ac yn unol â dymuniadau'r unigolyn.

SAFON:

- 21.1 Mae'r person cofrestredig a'r staff yn ymdrin â heneiddio, salwch a marwolaeth defnyddiwr gwasanaeth gyda sensitifrwydd a pharch.
- 21.2 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a'u cyfeillion yn gwybod (yn unol â'r hyn sydd wedi'i gytuno yn y Cynllun unigol ac sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd) a fyddant yn gallu aros yn y cartref pan fyddant yn tyfu'n hyn a / neu os bydd angen gofal nyrsio arnynt.
- 21.3 Mae dymuniadau y defnyddiwr gwasanaeth ynghylch gofal terfynol a marwolaeth yn cael eu trafod a'u cyflawni pryd bynnag y bo'n ymarferol, gan gynnwys parchu defodau crefyddol a diwylliannol.
- 21.4 Mae gan deulu a chyfeillion y defnyddiwr gwasanaeth ran yn y gwaith cynllunio ar gyfer mynd yn hen, salwch terfynol a marwolaeth (os dyna yw dymuniad y defnyddiwr gwasanaeth) a delio â hynny.
- 21.5 Mae gofal lliniarol, cymorth ymarferol a chynghor, a chwnsela ynglyn â galar yn cael eu darparu gan broffesiynolion hyfforddedig / asiantaethau arbenigol os dyna yw dymuniad y defnyddiwr gwasanaeth.
- 21.6 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael triniaeth a gofal ac yn cael marw yn eu hystafell eu hunain, os dyna yw eu dymuniad, oni bai bod yna reswm meddygol dros leoliad amgen.
- 21.7 Mae anghenion cyfnewidiol y defnyddwyr gwasanaeth y mae eu cyflwr yn gwaethygu neu y maent yn ffwdro – sef anghenion am gymorth personol neu gymhorthion technegol – yn cael eu hadolygu a'u bodloni'n gyflym i sicrhau bod yr unigolyn yn cadw'r rheolaeth uchaf.
- 21.8 Mae defnyddwyr eraill y gwasanaeth (a'r staff) sy'n byw yn y cartref yn cael cymorth i ymdrin â salwch neu farwolaeth defnyddiwr gwasanaeth.

ADRAN PUMP: STAFFIO

SAFON 22: ROLAU

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar eglurder rolau a chyfrifoldebau'r staff.

SAFON:

- 22.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan y staff ddisgrifiadau swyddi clir a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain a rhai pobl eraill.
- 22.2 Mae'r staff yn cael eu hannog i wybod beth yw prif nodau a gwerthoedd y cartref ac i'w cefnogi, ac yn deall ac yn gweithredu polisiau a gweithdrefnau'r cartref, ac maent yn gwybod sut y mae eu gwaith, a gwaith staff eraill (gan gynnwys gweithwyr allweddol), yn hybu prif nodau'r cartref.
- 22.3 Mae disgrifiadau swyddi'r staff yn gysylltiedig â chyrraedd nodau unigol y defnyddwyr gwasanaeth fel y'u nodir yn y datganiad o ddiben.
- 22.4 Mae'r staff yn dod i adnabod a datblygu perthynas â'r defnyddwyr gwasanaeth y maent yn eu cynorthwyo ac yn cael eu paru'n briodol o ran gender, oedran, cefndir diwylliannol a diddordebau personol.
- 22.5 Mae'r staff yn gyfarwydd â'r safonau ymddygiad ac ymarfer a bennir gan Gyngor Gofal Cymru ac yn cydymffurfio â hwy; mae'r staff nyrsio a phob proffesiynolyn iechyd cysylltiedig yn cydymffurfio â'r safonau ymddygiad ac ymarfer sydd wedi'u sefydlu gan eu cyrff rheoliadol.
- 22.6 Dylai'r staff fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth a'u medrau eu hunain ac yn gwybod pa bryd y mae'n briodol i gynnwys rhywun arall gydag arbenigedd mwy penodol.
- 22.7 Mae cyfraniad gwirfoddolwyr yn cydategu rolau staff cyflogedig; nid yw gwirfoddolwyr yn ymgymryd â thasgau sy'n gyfrifoldeb y staff cyflogedig.

SAFON 23: NODWEDDION A CHYMWYSTERAU

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth staff hyfedr a chymwysedig.

SAFON:

23.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan y staff yr hyfedredd a'r nodweddion y mae eu hangen i fodloni anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.

23.2 Dylai'r person cofrestredig geisio sicrhau bod gan y staff agweddau a phriodolddau sy'n bwysig i'r defnyddwyr gwasanaeth, sef:

- bod yn hawdd i'r defnyddwyr gwasanaeth fynd atynt a siarad â hwy a bod y staff yn esmwyth yng nghwmni y defnyddwyr gwasanaeth
- bod yn wrandawyr a chyfathrebwyr da
- bod yn ddibynadwy ac onest
- bod â diddordeb, cymhelliant ac ymrwymiad

23.3 Mae gan y staff y medrau a'r profiad y mae eu hangen ar gyfer y tasgau y disgwylir iddynt eu cyflawni, gan gynnwys

- gwybodaeth am anabledau'r defnyddwyr gwasanaeth a'u hanhwylerau penodol;
- medrau arbenigol i fodloni anghenion unigol y defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys medrau cyfathrebu ac ymdrin â'r mathau o ymddygiad a ragwelir;
- dealltwriaeth o ymosodedd corfforol a geiriol a hunan-niwed fel ffordd o gyfleu anghenion, dewisiadau a rhwystredigaethau;
- dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol pob defnyddiwr gwasanaeth;
- technegau ar gyfer adsefydlu gan gynnwys rhaglenni triniaeth ac adferiad, hyrwyddo symudedd, cynhwyster a hunan-ofal, a rhaglenni maes i ailsefydlu bywyd cymunedol;
- sylweddoli anghenion penodol a chyfnewidiol unigolion ac anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth a'r gallu i'w cydbwysu;
- y gallu i gynnal cysylltiadau proffesiynol effeithiol ag e.e. ymarferwyr cyffredinol, gweithwyr cymdeithasol, nyrsus, seiciatryddion,

therapyddion a staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal eraill ac asiantaethau cymunedol ac arbenigol.

23.4 Mae hyfforddeion (gan gynnwys pob staff o dan 18 oed) yn cael eu cofrestru ar raglen hyfforddi sy'n arwain at ddyfarnu NVQ Lefel 2 mewn gofal neu gymhwyster tebyg a gymeradwyir gan Gyngor Gofal Cymru. Ni chaiff hyfforddeion 17 oed, sy'n uwchrifol, weithio ar sail un-wrth-un ond pan fyddant yn gweithio o dan oruchwyliaeth oedolyn o weithiwr gofal hyd nes iddynt gyrraedd 18; ni chânt gymryd rhan mewn gofal personol ond â chytundeb y defnyddiwr gwasanaeth.

23.5 Mae 50% o'r staff gofal, gan gynnwys staff asiantaeth, yn y cartref yn meddu ar NVQ Lefel 2 mewn gofal neu gymhwyster arall a gymeradwyir gan Gyngor Gofal Cymru erbyn 1 Ebrill 2005.

SAFON 24: TÎM Y STAFF

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth gan dîm staff effeithiol.

SAFON:

24.1 Mae gan y cartref dîm staff cadarn, sefydlog a chydlynol, gyda digon o niferoedd a medrau cydategol i gynnal yr anghenion sydd wedi'u hasesu ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth bob adeg.

24.2 Mae'r nifer o staff ar ddyletswydd (gan gynnwys staff domestig), ddydd neu nos, a'r cymysgedd o'u medrau, yn sicrhau bod y gweithgareddau canlynol yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon er mwyn bodloni anghenion unigol a chydanghenion y defnyddwyr gwasanaeth:

- gwaith di-dor gydag unigolion;
- gweinyddu, trefnu a chyfathrebu;
- gwaith rheoli'r cartref o ddydd i ddydd;
- rheoli argyfyngau.

24.3 Pryd bynnag yn bo'n bosibl, dylai fod cyfraddau isel o drosiant ac absenoldeb drwy salwch, a defnydd isel ar staff asiantaethau / staff wrth gefn; pan fyddant yn cael eu defnyddio, mae yna dîm craidd o staff asiantaethau / staff wrth gefn sy'n adnabod y defnyddwyr gwasanaeth ac sy'n deall ffordd weithio'r cartref.

24.4 Pan fydd angen, ceir gwasanaeth arbenigol gan broffesiynolion perthnasol i gynorthwyo anghenion y defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi'u hasesu (gan gynnwys ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, therapyddion mewn cartrefi sy'n darparu gofal canolradd

/ adsefydlu; a nyrsus wedi'u hyfforddi mewn cartefi sy'n darparu gofal nyrsio).

- 24.5 Mae'r person cofrestredig yn ceisio paru'r tîm staff gyda diwylliant / gender y defnyddwyr gwasanaeth.
- 24.6 Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal (o leiaf chwech y flwyddyn) ac maent yn cael eu cofnodi a gweithredir yn unol â hwy.
- 24.7 Pryd bynnag y bo'n bosibl, mae staff ar ddyletswydd bob amser sy'n gallu cyfathrebu â'r defnyddwyr gwasanaeth yn eu hiaith gyntaf gan gynnwys iaith arwyddion; ac mae ganddynt fedrau mewn dulliau cyfathrebu eraill sy'n berthnasol i anghenion y defnyddwyr gwasanaeth (ee gwyddor blociau, Braille, sillafu bysedd, dull Moon, symbolau personol).
- 24.8 Mae staff sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r defnyddwyr gwasanaeth yn 18 oed o leiaf; mae staff sy'n cael eu gadael â gofal y cartref yn 21 oed o leiaf.
- 24.9 Mae'r lefelau staffio yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu anghenion cyfnewidiol y defnyddwyr gwasanaeth.

SAFON 25: RECRIWTIO

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynorthwyo a'u hamddiffyn gan bolisi ac arferion recriwtio'r cartref.

SAFON:

- 25.1 Mae'r person cofrestredig yn gweithredu gweithdrefn recriwtio fanwl ar sail cyfle cyfartal ac yn sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hamddiffyn.
- 25.2 Mae geirda ysgrifenedig gan ddau berson yn cael eu sicrhau cyn gwneud penodiad ac mae unrhyw fylchau yn y cofnod gyflogaeth yn cael eu harchwilio.
- 25.3 Dim ond ar ôl i'r wybodaeth a bennir o dan reoliad 19 fod ar gael (gan gynnwys tystysgrifau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol os ydynt yn ofynnol gan y rheoliad hwnnw) y caiff staff newydd eu cadarnhau yn eu swyddi.
- 25.4 Eir ati'n ddyfal i helpu'r defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan wrth ddethol staff, ac maent yn cael eu helpu drwy gydol y prosesau pan fydd staff yn ymuno ac yn ymadael.

- 25.5 Mae'r staff yn cael eu cyflogi yn unol â'r codau ymddygiad ac ymarfer a bennir gan Gyngor Gofal Cymru, ac yn cael copïau ohonynt.
- 25.6 Mae'r holl staff yn cael datganiadau o delerau ac amodau eu cyflogaeth.
- 25.7 Mae pob penodiad staff yn ddarostyngedig i gyfnod prawf o dri mis o leiaf ac mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan yng ngwaith eu hadolygu.
- 25.8 Mae recriwtio a dethol gwirfoddolwyr yn drylwyr ac mae'n ofynnol bod yr wybodaeth a bennir o dan reoliad 19 ar gael.

SAFON 26: HYFFORDDI A DATBLYGU

CANLYNIAD:

Mae anghenion unigol a chydanghenion y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu bodloni gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

SAFON

- 26.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod yna raglen hyfforddi a datblygu staff sy'n sicrhau bod y staff yn cyflawni nodau'r cartref ac yn bodloni anghenion cyfnewidiol y defnyddwyr gwasanaeth.
- 26.2 Mae gan y cartref gynllun hyfforddi a datblygu, cyllideb hyfforddi ddynodedig a pherson dynodedig gyda chyfrifoldeb dros y rhaglen hyfforddi a datblygu.
- 26.3 Mae'r holl staff gofal yn dechrau ar eu rhaglen gynefino ar ddiwrnod cyntaf eu cyflogaeth, a chânt eu hasesu erbyn diwedd deuddgfed wythnos eu cyflogaeth. Mae'r rhaglen yn ystyried unrhyw ganllawiau ar gynefino ag a gyhoeddir gan Gyngor Gofal Cymru. Mae'n cynnwys hyfforddiant ar egwyddorion gofal, arferion gweithio diogel, rôl y sefydliad a'r gweithiwr, profiadau ac anghenion penodol grwp y defnyddwyr gwasanaeth a dylanwadau a gofynion penodol lleoliad y gwasanaeth. Wedi iddynt gwblhau'u cynefino'n llwyddiannus, cofrestrir staff heb y cymhwyster y cyfeirir ato yn 23.5 am y cwrs priodol ac maent yn ymgymryd â'r cwrs hwnnw.
- 26.4 Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant cyfleoedd cyfartal, gan gynnwys hyfforddiant cydraddoldeb anabledd a hyfforddiant cydraddoldeb hiliol a gwrth-hiliaeth.
- 26.5 Mae gan bob aelod staff asesiad a phroffil hyfforddi a datblygu unigol erbyn 1 Ebrill 2003, ac o leiaf bum diwrnod bob blwyddyn o hyfforddiant a datblygu.

- 26.6 Mae asesiad o anghenion hyfforddi yn cael ei gynnal ar gyfer y tîm staff cyfan, ac ymgwymerir ag asesiad effaith o'r holl ddatblygiad staff i nodi'r manteision ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth ac i fwydo cynllunio at y dyfodol.
- 26.7 Mae hyfforddiant a datblygu yn gysylltiedig â nodau gwasanaeth y cartref ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth a'u Cynlluniau unigol; ac mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys wrth benderfynu ar anghenion a chynlluniau hyfforddi'r staff.

SAFON 27: GORUCHWYLIAETH A CHYMORTH

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar staff sy'n cael eu cefnogi a'u goruchwyllo'n dda.

SAFON:

- 27.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod staff yn cael y cymorth a'r oruchwyliaeth y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu swyddi.
- 27.2 Mae trefniadau wedi'u sefydlu i'r staff hyn friffio'r staff eraill, ac i'r staff hyn gael adborth uniongyrchol oddi wrth y staff eraill.
- 27.3 Mae'r staff sy'n goruchwyllo cydweithwyr yn cael eu hyfforddi, ac yn cael cymorth / goruchwyliaeth gan staff hyn.
- 27.4 Mae'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwyllo rheolaidd sy'n cael eu cofnodi, o leiaf unwaith bob deufis gyda'u staff hyn/rheolwr yn ychwanegol at gyswllt rheolaidd ar arferion bob dydd (bob pythefnos pan nad oes unrhyw gysylltiad rheolaidd; pro-rata ar gyfer staff rhan-amser), sy'n cynnwys:
- trosi athroniaeth a nodau'r cartref i mewn i waith gydag unigolion
 - monitro'r gwaith gyda defnyddwyr unigol y gwasanaeth
 - cymorth a chyfarwyddyd proffesiynol
 - nodi anghenion hyfforddi a datblygu.
- 27.5 Mae'r staff yn cael mynediad i oruchwyliaeth arbenigol fel a nodir gan anghenion y defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi'u hasesu.
- 27.6 Mae'r staff yn cael eu gwerthuso bob blwyddyn gan eu rheolwr llinell er mwyn adolygu perfformiad yn erbyn y disgrifiad swydd ac i gytuno ar gynlluniau datblygu gyrfa.

27.7 Mae gan staff gopïau o weithdrefnau ysgrifenedig y cartref ar achwyn a disgyblu.

27.8 Mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu i ymdrin ag ymosodedd corfforol tuag at staff (gweler hefyd Safon 36 Amddiffyniad).

ADRAN CHWECH: DULL CYNNAL A RHEOLI'R CARTREF

SAFON 28: GWEITHREDIADAU POB DYDD

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar gartref sy'n cael ei redeg yn dda.

SAFON:

28.1 Mae'r rheolwr yn gymwys, yn hyfedr ac yn brofiadol i redeg y cartref a bodloni diben, nodau ac amcanion datganedig y cartref.

28.2 Mae'r rheolwr yn meddu ar brofiad o ddwy flynedd o leiaf mewn swydd rheolwr hyn mewn lleoliad gofal perthnasol o fewn y pum mlynedd diwethaf;

ac, erbyn 1 Ebrill 2005, mae gan y rheolwr gymhwyster NVQ lefel 4 mewn gofalu neu gymhwyster tebyg a gymeradwyir gan Gyngor Gofal Cymru, neu ddyfarniad cymwys mewn gwaith cymdeithasol, neu ddyfarniad NVQ lefel 4 mewn rheoli gofal;

neu, mae'r rheolwr cofrestredig yn nyrs gofrestrdig ar y lefel gyntaf ac erbyn 1 Ebrill 2005 mae ganddi ddyfarniad NVQ lefel 4 mewn rheoli gofal.

28.3 Ni chaiff rheolwr reoli ail gartref ond yr amod nad yw'n peryglu iechyd a lles y defnyddwyr gwasanaeth .

28.4 Mae'r rheolwr yn dilyn hyfforddiant a datblygiad o bryd i'w gilydd er mwyn cynnal a diweddarau ei wybodaeth, ei fedrau a'i gymhwyster i reoli'r cartref.

SAFON 29: ETHOS

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar ethos, arweinyddiaeth ac ymagwedd reoli'r cartref.

SAFON:

29.1 Mae ymagwedd reoli'r cartref yn creu awyrgylch agored, bositif a chynhwysol.

- 29.2 Mae'r rheolwr yn cyfathrebu synnwyr cyfeiriad ac arweinyddiaeth glir y mae'r staff a'r defnyddwyr gwasanaeth yn eu deall ac yn gallu eu cysylltu â nodau a phwrrpas y cartref.
- 29.3 Mae gan y person cofrestredig strategaethau ar gyfer galluogi'r staff, y defnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill i leisio eu pryderon ac i effeithio ar y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno (gweler hefyd Safon 35 Cwynion a Phryderon).
- 29.4 Mae prosesau rheoli a rhedeg y cartref yn agored ac yn dryloyw.
- 29.5 Mae'r gwaith cynllunio a'r arferion rheoli yn hybu arloesi, creadigrwydd, datblygu a newid ac yn eu gwobrwyo.
- 29.6 Mae ymrwymiad yn cael ei wneud i gyfleoedd cyfartal a chydaddoldeb hiliol yn y cartref ac yn ei reoli a'i weithgareddau

SAFON 30: SICRWYDD ANSAWDD

CANLYNIAD:

Mae defnyddwyr gwasanaeth yn hyderus bod eu barn yn cael ei hystyried ym mhob hunan-fonitro, adolygu a datblygu gan y cartref.

SAFON :

- 30.1 Mae systemau sicrwydd ansawdd a monitro ansawdd effeithiol, sy'n cynnwys ceisio barn y defnyddwyr gwasanaeth, wedi'u sefydlu i fesur llwyddiant y cartref o ran bodloni ei nodau a'i amcanion a'i ddatganiad o ddiben.
- 30.2 Mae yna gynllun datblygu blynyddol ar gyfer y cartref, sydd wedi'i seilio ar gylch systematig o gynllunio - gweithredu - adolygu, sy'n adlewyrchu'r nodau a'r canlyniadau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth.
- 30.3 Mae yna hunan-fonitro parhaus, sy'n cynnwys arolygon defnyddwyr gwasanaeth, ac sy'n defnyddio dull gwrthrychol, sy'n cael ei sicrhau a'i adolygu'n gyson ac y mae modd ei ddilysu (o ddewis, system sicrwydd ansawdd sy'n cael ei chydabod yn broffesiynol) ac sy'n cynnwys y defnyddwyr gwasanaeth; ac mae archwiliad mewnol yn cael ei gynnal o leiaf bob blwyddyn.
- 30.4 Mae adolygiadau yn esgor ar adroddiadau y trefnir iddynt fod ar gael i'r defnyddwyr gwasanaeth ac a ddarperir i ASGC.

- 30.5 Mae'r person cofrestredig yn ceisio sicrhau datblygiad pob defnyddiwr gwasanaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn, a hynny wedi'i gysylltu â gweithredu'r Cynllun unigol.
- 30.6 Mae adborth yn cael ei geisio'n weithredol oddi wrth y defnyddwyr gwasanaeth ynglyn â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy'r cyfrwng mwyaf addas yn y cartref (a allai gynnwys holiaduron bodlonrwydd defnyddwyr di-enw a thrafodaeth gydag unigolion a grwpiau), yn ogystal â thystiolaeth o gofnodion a chynlluniau bywyd; ac maent yn bwydo pob gwaith cynllunio ac adolygu.
- 30.7 Mae sylwadau'r teulu, cyfeillion ac eiriolwyr a budd-ddeiliaid yn y gymuned (e.e. ymarferwyr cyffredinol, athrawon, meddyg traed, staff cyrff gwirfoddol) yn cael eu ceisio ynglyn â'r ffordd y mae'r cartref yn cyrraedd ei nodau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth.
- 30.8 Dywedir wrth y defnyddwyr gwasanaeth am archwiliadau ASGC ac maent yn cael cyfle i fynd at arolygwyr, yn breifat, gyda chyfieithwyr ar y pryd / eiriolwyr yn ôl yr angen, a threfnir bod sylwadau'r defnyddwyr gwasanaeth ar gael i arolygwyr ASGC i'w cynnwys mewn adroddiadau archwilio.
- 30.9 Mae polisïau, gweithdrefnau ac arferion yn cael eu hadolygu yn gyson yng ngoleuni deddfwriaeth sy'n newid a chynghor ynghylch arferion da gan y Cynulliad, awdurdodau lleol / ieuchyd, a chyrff arbenigol / proffesiynol.

SAFON 31: POLISÏAU A GWEITHDREFNAU

CANLYNIAD:

Mae hawliau a lles y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu gan bolisïau a gweithdrefnau'r cartref.

SAFON :

- 31.1 Mae polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig y cartref yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol a safonau proffesiynol cydnabyddedig, ac yn cynnwys y pynciau sydd wedi'u nodi yn Atodiad 2.
- 31.2 Mae datganiadau polisi yn briodol i'r sefydliad ac yn ymdrin â'r canlynol:
- cynnwys y polisi cyffredinol
 - y corff ar gyfer cyflawni'r polisi
 - y trefniadau ar gyfer cyflawni'r polisi.

- 31.3 Mae'r staff yn deall ac yn arfer pob polisi, gweithdrefn a chod ymarfer ac mae ganddynt gopïau cyfoes ohonynt.
- 31.4 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn gallu gweld polisïau, gweithdrefnau a chodau ymarfer perthnasol, ar ffurfiau priodol, ac mae'r staff yn eu hesbonio i'r defnyddwyr gwasanaeth.
- 31.5 Mae gan y staff ran lawn wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau, ac mae gan y defnyddwyr gwasanaeth gyfleoedd i helpu i'w ffurfio.
- 31.6 Mae pob polisi, gweithdrefn, cod ymarfer a chofnod sydd gan y cartref yn cael eu llofnodi gan y person cofrestredig ac maent yn cael eu monitro, eu hadolygu a'u diwygio, yn ôl yr angen.

SAFON 32: CADW COFNODION

CANLYNIAD:

Mae hawliau a lles y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu gan bolisïau a gweithdrefnau'r cartref ar gyfer cadw cofnodion

SAFON

- 32.1 Cedwir cofnodion sy'n ofynnol gan reoliad 17 yn gyfoes ac yn gywir.
- 32.2 Mae cyfle gan y defnyddwyr gwasanaeth i weld eu cofnodion a gwybodaeth amdanynt a gedwir gan y cartref er mwyn eu helpu i gadw eu cofnodion personol, yn unol â rheoliad 17.
- 32.3 Mae cofnodion unigol a chofnodion y cartref yn ddiogel, yn gyfoes ac mewn cyflwr da; ac maent wedi'u llunio, eu cadw a'u defnyddio yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a gofynion cyfreithiol eraill.

SAFON 33: ARFERION GWAITH DIOGEL

CANLYNIAD:

Mae iechyd, diogelwch a lles y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hybu a'u diogelu.

SAFON :

- 33.1 Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol mae'r person cofrestredig yn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y defnyddwyr gwasanaeth a'r staff.
- 33.2 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau arferion gwaith diogel gan gynnwys:

- symud a thrafod: defnyddio technegau ar gyfer symud pobl a phethau sy'n osgoi anaf i'r defnyddwyr gwasanaeth neu i'r staff
- diogelu rhag tân: deall a gweithredu gweithdrefnau tân priodol
- cymorth cyntaf: gwybod sut i ymdrin â damweiniau ac argyfyngau iechyd; darparu blwch cymorth cyntaf a chynorthwyydd cymorth cyntaf cymwysedig bob adeg; a chofnodi pob achlysur pan ddefnyddir hwy
- hylendid bwyd: cadw a pharatoi bwyd yn iawn er mwyn osgoi gwenwyn bwyd
- rheoli haint: deall ac arfer mesurau i atal heintiau a chlefydau trosglwyddadwy rhag lledu

33.3 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau iechyd a diogelwch yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth a'r staff gan gynnwys:

- cadw a gwaredu deunyddiau peryglus yn ddiogel
- cynnal a chadw rheolaidd i fwyleri a systemau gwres canolog o dan gongtract gan bersonau cymwys (ee aelodau o Gyngor Gosodwyr Nwy Cofrestredig (CORGI))
- cynnal a chadw systemau trydanol ac offer trydanol
- rheoli tymheredd dwr, a chynllunio atebion i reoli'r risg o Legionella a risg rhag dwr / arwynebau twym, ar sail asesiad o alluoedd ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth (hynny yw, tymheredd sy'n agos i 43 C)
- darparu a chynnal a chadw ataliadau ar ffenestri, ar sail asesiad o ba mor hawdd y gellir niweidio'r defnyddwyr gwasanaeth a'r risg y mae'r ffenestri yn peri iddynt
- cynnal amgylchedd ddiogel gan gynnwys offer cegin a pheiriannau golchi; grisiau y tu allan a llwybrau cerdded; offer garddio
- diogelwch yr adeiladau
- diogelwch y defnyddwyr gwasanaeth ar sail asesiad o ba mor hawdd y gellir eu niweidio.

33.4 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau cydymffurfedd â'r ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith 1992
- Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) 1988
- Rheoliadau Gweithrediadau Trafod â Llaw 1992
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1985 (RIDDOR).

33.5 Mae'r person cofrestredig yn cynhyrchu datganiad ysgrifenedig o'r polisi, y drefniadaeth a'r trefniadau ar gyfer cynnal arferion gweithio diogel.

33.6 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu gweithredu ar gyfer pob pwnc sy'n ymwneud ag arferion gwaith diogel yn Safonau 33.2 a 33.3, a bod canfyddiadau arwyddocaol o'r asesiad risg yn cael eu cofnodi.

33.7 Mae pob damwain, anaf a digwyddiad o salwch neu glefyd y gellir ei drosglwyddo yn cael eu cofnodi a cheir adroddiad arnynt yn unol â rheoliad 38.

33.8 Mae gweithdrefnau diogelwch yn cael eu harddangos a'u hesbonio ar ffurfiau y mae'n hawdd eu deall ac sy'n dwyn anghenion cyfathrebu arbennig y defnyddwyr gwasanaeth i ystyriaeth.

33.9 Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant cynefino a hyfforddiant diweddar sy'n cymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau gan Gyngor Gofal Cymru ar bob pwnc sy'n ymwneud ag arferion gwaith diogel yn Safonau 33.2 a 33.3 (gweler Safon 26.3 Hyfforddi Staff).

SAFON 34: DULL CYNNAL Y GWASANAETH

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn elwa oddi wrth reolaeth gymwys ac atebol ar y gwasanaeth.

SAFON:

- 34.1 Cynhelir y cartref (y tu fewn a'r tu allan) er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, hyfywdra ariannol ac atebolrwydd y cartref.
- 34.2 Mae cynllun busnes ac ariannol ar gyfer y cartref a'r gwasanaeth, sy'n agored i gael ei archwilio ac i gael ei adolygu'n flynyddol.
- 34.3 Mae systemau wedi'u sefydlu i sicrhau:
- cynllunio ariannol, monitro cyllideb a rheolaeth ariannol
 - cynllunio adnoddau dynol sy'n cynnwys gwarant gan gynnwys sicrwydd o graffter ariannol
 - dethol, hyfforddi, arolygu a gwerthuso y rheolwr;
 - monitro ansawdd.
- 34.4 Mae yswiriant ar waith rhag colled neu niwed i asedau'r busnes. Dylai lefel yr atebolrwydd adlewyrchu gwerth amnewid yr adeiladau, gosodion, ffitiadau ac offer yn llawn.
- 34.5 Mae yswiriant yn cael ei ddarparu ar gyfer costau ymyrryd â busnes, (gan gynnwys colli enillion) yn ogystal â chostau'r gweithredwr wrth fodloni ei rwymedigaethau o dan gontract. Rhaid i'r olaf fod hyd at isafswm o £5 miliwn neu unrhyw swm uwch sy'n angenrheidiol i ateb rhwymedigaethau cyfreithiol y person cofrestredig tuag at weithwyr cyflogedig, defnyddwyr gwasanaeth a phersonau trydydd parti.
- 34.6 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth ran lle bo'n bosibl yn y busnes ac yng nghynllunio a monitro ariannol y cartref.
- 34.7 Mae'r staff a'r defnyddwyr gwasanaeth yn deall yn glir y llinellau o atebolrwydd o fewn y cartref, a chydag unrhyw reolwyr allanol.

ADRAN SAITH : PRYDERON, CWYNION AC AMDDIFFYNIAD

SAFON 35: CWYNION A PHRYDERON

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu sylwadau ac yn ymateb iddynt.

SAFON:

- 35.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod yna weithdrefn glir ac effeithiol ar gyfer cwyno, sy'n cynnwys camau'r broses a'r amserlen ar eu cyfer, ac mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn gwybod sut i gwyno ac wrth bwy.
- 35.2 Mae'r person cofrestredig a'r staff yn gwrando ar sylwadau'r defnyddwyr gwasanaeth a'u pryderon, ac yn gweithredu yn unol â hwy ac yn annog trafod a gweithredu ar y pynciau a godir gan y defnyddwyr gwasanaeth cyn iddynt ddatblygu'n broblemau a chwynion ffurfiol.
- 35.3 Mae gweithdrefn gwyno'r cartref wedi'i rhoi a / neu ei hesbonio i bob defnyddiwr gwasanaeth mewn iaith / ar ffurf briodol, gan gynnwys yr wybodaeth ynglyn â sut i godi cwyn gydag ASGC ar unrhyw adeg pe bai'r achwynwr yn dymuno gwneud hynny.
- 35.4 Ymatebir i bob cwyn o fewn 28 diwrnod,
- 35.5 Os dymunant, gall y defnyddwyr gwasanaeth gwyno wrth aelod staff o'u dewis ar sail un-wrth-un, a/neu cânt eu helpu i gael gafael ar eiriolaeth annibynnol leol, cyfieithwyr ar y pryd annibynnol / gweithwyr cymorth cyfathrebu a/neu hyfforddiant priodol.
- 35.6 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn cael sicrwydd na fyddant yn dioddef o ganlyniad i wneud cwyn.
- 35.7 Mae cofnod yn cael ei gadw o bob matersy'n cael ei godi neu gwyn sy'n cael ei gwneud gan y defnyddwyr gwasanaeth, manylion unrhyw ymchwiliad, a'r camau a gymerwyd; ac mae'r cofnod hwn yn cael ei wirio o leiaf bob tri mis gan aelod o'r staff hyn nad yw wedi'i leoli yn y cartref, os oes y fath aelod o'r staff.

SAFON 36: AMDDIFFYNIAD

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, rhag esgeulustra ac rhag niweidio eu hunain.

SAFON:

- 36.1 Mae'r person cofrestredig y sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth gorfforol, ariannol neu faterol, seicolegol neu rywiol, esgeulustra, camdriniaeth oherwydd camwahaniaethu neu hunan-niwed, neu driniaeth annynol neu ddiraddiol, drwy fwriad, esgeulustod neu anwybodaeth, yn unol â pholisi ysgrifenedig.
- 36.2 Mae yna weithdrefnau cadarn ar gyfer ymateb i amheuan neu dystiolaeth ynghylch camdriniaeth neu esgeulustra (gan gynnwys chwythu'r chwiban) i sicrhau diogelwch ac amddiffyniad y defnyddwyr gwasanaeth (gan gynnwys trosglwyddo pryderon ymlaen i ASGC) ac sy'n cynnwys gwybodaeth am Ddeddf Datgelu Buddiannau Cyhoeddus 1998.
- 36.3 Mae pob honiad a digwyddiad o gamdriniaeth, a'r camau a gymerwyd, yn cael eu cofnodi.
- 36.4 Mae staff a all fod yn anaddas i weithio gydag oedolion sy'n hawdd eu niweidio yn cael eu cyfeirio er mwyn i'r Ysgrifennydd ystyried eu cynnwys ar y cofrestrau Amddiffyn Plant ac Oedolion Hawdd eu Niweidio yn unol â Deddf Amddiffyn Plant 1999 a Deddf Safonau Gofal 2000 .
- 36.5 Mae ymosodedd corfforol a llafar gan ddefnyddiwr gwasanaeth yn cael ei ddeall ac ymdrinnir ag ef yn briodol, a dim ond fel cam olaf y mae ymyriad corfforol yn cael ei ddefnyddio gan staff hyfforddedig yn unol â chanllawiau'r Cynulliad, a hynny er mwyn amddiffyn hawliau a lles y defnyddiwr gwasanaeth, ac fe'i defnyddir cyn lleied ag sy'n gyson â diogelwch.
- 36.6 Mae polisïau ac arferion y cartref ynglyn ag arian y defnyddwyr gwasanaeth a'u materion ariannol yn sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael gweld eu cofnodion ariannol personol, yn cael storio eu harian a'u pethau gwerthfawr yn ddiogel, yn cael ymgynghori'n breifat ynglyn a'u harian a chael cyngor ar yswiriant personol; ac maent yn atal y staff rhag cael rhan yng ngwaith gwneud ewyllys y defnyddwyr gwasanaeth.

ADRAN WYTH: AMGYLCHEDD

SAFON 37: ADEILADAU

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn byw mewn amgylchedd cartrefol, cysurus a diogel.

SAFON :

- 37.1 Mae adeiladau'r cartref yn addas at ei ddibenion datganedig; maent yn hygyrch, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda; maent yn bodloni anghenion unigol y defnyddwyr gwasanaeth a'u cydanghenion mewn ffordd gysurus a chartrefol; ac maent wedi'u dylunio gan ddwyn i ystyriaeth ganllawiau perthnasol.
- 37.2 Mae pob defnyddiwr gwasanaeth mewn cartrefi sy'n bodoli eisoes yn cael gofod byw (ystafell wely a gofod cyffredin) y mae ei gyfanswm cyfartalog yn 13.4 metr sgwâr (16.1 metr sgwâr ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwynion) o leiaf.
- 37.3 Mae cartrefi newydd yn rhoi llety i uchafswm o un ar bymtheg o bobl heb fod mwy nag wyth o bobl yn rhannu grwp staff, man bwyta a chyfleusterau cyffredin eraill (mewn colegau arbenigol, mae ystafelloedd bwyta yn cydweddu ag ystafelloedd tebyg mewn colegau nad ydynt yn rhai arbenigol); mae'r cartrefi mwy eu maint sy'n bodoli eisoes yn cael eu trefnu mewn clystyrau o hyd at wyth o bobl ar y sail hon erbyn 1 Ebrill 2007.
- 37.4 Ar gyfer cartrefi newydd i oedolion ag anableddau dysgu, mae'r canllawiau yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 1/91 wedi eu cymryd i ystyriaeth.
- 37.5 Nid yw'r defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi'u lleoli yn y cartref am seibiant / am dymor byr (hyd at dri mis) neu ofal canolradd / lleoliadau adsefydlu yn rhannu'r un adeiladau â'r rhai sydd yno am dymor hir oni bai fod hyn o fantais i'r ddau grwp; pan fydd hyn yn digwydd, mae gofod dydd cyffredin ar wahân, ac mae cyfleusterau ac offer ar gael ar gyfer pob grwp.
- 37.6 Mae'r adeiladau yn ddiogel, yn gysurus, yn olau, yn siriol, yn cael digon o awyr, yn lân ac yn rhydd rhag arogleuon drwg, ac yn darparu golau, gwres ac awyriad digonol ac addas.

- 37.7 Mae'r cartref yn cynnig cyfle i ddefnyddio amwynderau lleol, trafnidiaeth leol a gwasanaethau cynnal perthnasol, i gydweddu ag anghenion personol y defnyddwyr gwasanaeth a'u dull o fyw ac â diben y cartref.
- 37.8 Mae'r adeiladau'n cydweddu â'r gymuned leol ac mae ganddynt arddull ac awyrgylch sy'n adlewyrchu diben y cartref.
- 37.9 Mae'r adeiladau'n gwbl hygyrch i bob defnyddiwr gwasanaeth; mae pob cartref sy'n rhoi llety i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn darparu mynediad ar y gwastad, ac mae ganddynt ddrysau i'r mannau cymunedol, ystafelloedd y defnyddwyr gwasanaeth, cyfleusterau bathio a thoiled a mannau eraill y mae gan ddefnyddwyr cadeiriau olwyn fynediad iddynt, sydd â lled clir pan fyddant ar agor o 800mm.
- 37.10 Mae'r celfi a'r ffitiadau (ac addasiadau ac offer) o ansawdd dda, ac maent mor ddomestig, anymwthiol a chyffredin ag sy'n gydnaws â chyflawni eu diben.
- 37.11 Mae'r adeiladau yn bodloni gofynion perthnasol y gwasanaeth tân a'r adran iechyd amgylcheddol lleol, Deddfau a Rheoliadau iechyd a diogelwch ac adeiladu, a Rhan 3 o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 o'i chychwyn.
- 37.12 Mae gan y cartref raglen gynnal-a-chadw ac adnewyddu ar gyfer deunydd yr adeiladau a'u haddurniad, a chedwir cofnodion.
- 37.13 Cyfyngir camerâu CCTV i fannau mynediad at ddibenion diogelwch ac nid ydynt yn amharu ar fywyd bob dydd defnyddwyr y gwasanaeth.

SAFON 38: YSTAFELLOEDD UNIGOL

CANLYNIAD:

Mae ystafelloedd y defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn addas ar gyfer eu hanghenion a'u dulliau o fyw ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth.

SAFON:

- 38.1 Mae'r person cofrestredig yn darparu i bob defnyddiwr gwasanaeth ystafell wely breifat y gellir ei chloi, ac y mae ganddi ofod llawr defnyddiadwy, ffitiadau a chelfi sy'n ddigonol ac yn addas i fodloni anghenion yr unigolyn a'i ddull o fyw.
- 38.2 Cynigir y dewis o ystafell sengl i bob defnyddiwr gwasanaeth.
- 38.3 Y gofod safonol lleiaf ar gyfer ystafelloedd sengl mewn cartrefi gofal sy'n bodoli eisoes yw 100 troedfedd sgwâr (9.3 metr sgwâr)

38.4 Y gofod safonol lleiaf ar gyfer ystafelloedd sengl mewn cartrefi gofal newydd, ac mewn estyniadau i gartrefi sy'n bodoli eisoes sydd i'w defnyddio gan breswylwyr sydd oherwydd eu hanableddau corfforol difrifol yn gorfod defnyddio cadair olwynion ar sail barhaol a chyson, yw 13.5 metr sgwâr. Ni fwriedir i'r safon hon fod yn gymwys i breswylwyr sy'n defnyddio cadeiriau olwynion yn achlysurol neu ar gyfer eu cludo o gwmpas y cartref yn unig;

Y gofod safonol lleiaf ar gyfer ystafelloedd sengl yn y cartrefi sy'n bodoli eisoes, sydd i'w defnyddio gan breswylwyr sydd oherwydd eu hanableddau corfforol difrifol yn gorfod defnyddio cadair olwynion ar sail barhaol a chyson, yw 12 metr sgwâr. Ni fwriedir i hyn fod yn gymwys i breswylwyr sy'n defnyddio cadeiriau olwynion yn achlysurol neu ar gyfer eu cludo o gwmpas y cartref yn unig;

Ni ddylid derbyn unrhyw un sydd wedi'i asesu fel rhywun sy'n debygol o fod ag angen cymorth i dramwyo o gwmpas y cartref sy'n ymwneud â defnyddio cadeiriau olwynion i unrhyw ystafell onid oes cymorth tramwyo diogel ac effeithiol yn bosibl sy'n bodloni eu hanghenion gofal.

38.5 Mae rhannu ystafelloedd yn cael ei ddirwyn i ben erbyn 1 Ebrill 2004 onid yw'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw felly ar hyn o bryd yn penderfynu dal ati i rannu.

38.6 Mae gan ystafelloedd a rennir ar hyn o bryd o leiaf 16 metr sgwâr o ofod llawr defnyddiadwy (heb gynnwys en-suite) ac fe'u meddiennir gan ddau ddefnyddiwr gwasanaeth ar y mwyaf sydd wedi gwneud dewis positif i rannu.

38.7 Mewn adeiladau newydd, estyniadau a chofrestriadau am y tro cyntaf, mae dwy ystafell sengl yn cael eu darparu i ddau ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n dewis rhannu iddynt eu defnyddio er enghraifft fel ystafell wely a llofa.

38.8 Mae toiledau yn cael eu rhannu gan ddau berson ar y mwyaf, a rhennir ystafelloedd ymolchi (basn ymolchi a chawod neu faddon) gan dri pherson ar y mwyaf pan na ellir darparu cyfleusterau en-suite.

38.9 Mae toiledau ac ystafelloedd ymolchi yn gyfagos ag ystafelloedd y defnyddwyr gwasanaeth, ac yn briodol yn ddiwylliannol (gweler Safon 40.5), ac mae modd eu cloi.

38.10 Y gofod safonol lleiaf ar gyfer ystafelloedd sengl mewn cartrefi gofal newydd, ac mewn estyniadau i gartrefi presennol, fydd 12 metr sgwâr.

38.11 Mae cofrestriadau nad ydynt yn gartrefi sy'n bodoli eisoes, ac estyniadau newydd sydd wedi'u bwriadu ar gyfer lleoliadau am llai na thri mis yn darparu ystafelloedd gwely unigol gyda gofod llawr defnyddiadwy o 10 metr sgwâr o leiaf (ac eithrio *en-suite*).

38.12 Mae ystafelloedd y defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn cynnwys (oni bai y cytunwyd yn wahanol yn y Cynllun unigol gyda'r defnyddiwr gwasanaeth neu er ei les):

- gwely, bwrdd, cist ddillad a dwy gadair gyffyrddus
- wardrob / lle mewn cwpwrdd a lle storio y gellir ei gloi
- basn ymolchi (oni bai bod cyfleusterau *en-suite* yn cael eu darparu)
- lle ar gyfer eiddo arferol y defnyddwyr gwasanaeth, e.e. cyfrifiadur, systemau cerddoriaeth, peiriannau trydanol personol, teclynnau codi / cymhorthion technegol
- tri soced dwbl, pwynt ar gyfer erial teledu, a phwynt ffôn (neu fodd defnyddio ffôn yn yr ystafell)
- dillad gwely, llenni a gorchudd llawr o ansawdd a dyluniad da sy'n addas ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth
- ffenestr sy'n agor, ar lefel sy'n cynnig golygfa pan fydd y defnyddiwr yn eistedd; goleuo ac awyru da; a gwres sy'n cael ei reoli'n unigol.

38.13 Gall y defnyddwyr gwasanaeth ddewis (neu maent yn cael eu helpu i ddewis) eu celfi eu hunain a gallant addurno a phersonoli eu hystafelloedd, yn amodol ar ofynion tân a diogelwch.

SAFON 39: LLE A RENNIR

CANLYNIAD:

Mae lleoedd a rennir yn cydategu ystafelloedd unigol y defnyddwyr gwasanaeth ac yn ychwanegu atynt.

SAFON:

39.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod ystod o leoedd a rennir yn cael eu darparu ar gyfer gweithgareddau a rennir ac at ddefnydd preifat, a'u bod yn gysurus, yn ddiogel ac yn gwbl hygyrch.

39.2 Mae lleoedd a rennir yn cynnwys:

- lle allanol sy'n gymesur â'r nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth a staff ar ddyletswydd
- cegin a chyfleusterau golchi sy'n ddomestig o ran eu maint

- baddonau / cawodydd (y gellir eu cloi) sy'n addas ar gyfer gofynion arbenigol y defnyddwyr gwasanaeth, os nad ydynt yn cael eu darparu yn eu hystafelloedd eu hunain
- mannau cyffredin (e.e. ar gyfer prydau bwyd, gweithgareddau cymdeithasol) o 4.1 metr sgwâr o leiaf am bob defnyddiwr gwasanaeth o leiaf
- mewn estyniadau, adeiladau newydd a chofrestriadau newydd nad ydynt yn gartrefi ar hyn o bryd, mannau cyffredin o 5.1 metr sgwâr o leiaf am bob defnyddiwr gwasanaeth gyda chadair olwyn / cymhorthion symudedd
- man preifat ar gyfer, e.e. ymwelwyr, ymgynghoriadau neu driniaeth
- man ysmygu ar wahân os nad oes gan y cartref bolisi dim ysmygu.

39.3 Mae cyfleusterau digonol yn cael eu darparu i'r staff gan gynnwys lle diogel i storio eiddo personol a chyfleusterau cysgu pan fyddant yn cysgu yn yr adeilad.

SAFON 40: ADDASIADAU AC OFFER

CANLYNIAD:

Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth yr offer arbenigol y mae arnynt eu hangen i uchafu eu hannibyniaeth

SAFON

40.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod yr addasiadau amgylcheddol a'r offer anabledd y mae eu hangen i fodloni dibenion datganedig y cartref ac anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth sydd wedi'u hasesu'n unigol yn cael eu darparu.

40.2 Mae cartrefi sy'n cynnig gwasanaeth i bobl ag anableddau corfforol yn darparu offer arbenigol yn unol ag anghenion pob unigolyn gan gynnwys, er enghraifft:

- offer symud / trac uwchben ar gyfer taclau codi
- canllawiau grisiau, lifftiau
- system rheoli'r amgylchedd
- ystafelloedd llaw dde a llaw chwith
- ffitiadau / offer ystafelloedd ymolchi priodol
- systemau larymau galw

- switsys golau, arwynebeddau gweithio ac agoriadau ffenestr sydd wedi eu gostwng
- cyfleusterau storio / ailwefru ar gyfer cadeiriau olwyn / offer symudedd mewn man arwahanol / ar wahân.

40.3 Mae cartrefi sy'n cynnig gwasanaeth i bobl â nam ar eu synhwyrau yn darparu cymhorthion ac addasiadau arbenigol yn ôl yr angen gan gynnwys, er enghraifft:

- dolennau / microffonau / minicomau / ffonau testun / fideoffon;
- goleuadau ychwanegol a/ neu oleuadau gwrth-lacharedd; cyferbynnu lliwiau;
- symbolau cyffyrddol; arwynebeddau â gweadau amrywiol;
- peryglon / rhwystrau fflworoleuol neu glustogog (lle nad oes modd eu symud);
- cyfrifiaduron at ddefnydd personol y defnyddwyr;
- teledu gyda fideorecordydd a chyfleuster is-deitlo / iaith arwyddion.

40.4 Mae cartrefi sy'n cynnig gwasanaeth i bobl a gyfeiriwyd ar gyfer gofal canolradd yn darparu cyfleusterau adsefydlu wedi'i leoli mewn man dynodedig, gan gynnwys offer ar gyfer therapïau a thriniaeth ac offer i hybu gweithgareddau bywyd bob dydd a symudedd.

40.5 Mae cartrefi sy'n cynnig gwasanaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth o leiafrifoedd ethnig yn darparu ystafelloedd ymolchi â ffitiadau / cyfleusterau gofal personol sy'n briodol yn ddiwylliannol.

40.6 Mae cymhorthion, addasiadau ac offer yn cael eu darparu yn dilyn asesiad gan therapydd galwedigaethol neu arbenigydd â chymhwyster addas arall, ac yn cymryd ei argymhellion i ystyriaeth.

40.7 Mae systemau ac offer diogelwch yn briodol i bobl â phroblemau symudedd / problemau synhwyrau - e.e. larymau tân â goleuadau sy'n fflachio, drysau tân magnetig.

40.8 Mae'r cartref yn gwneud trefniadau boddhaol ar gyfer trwsio a chynnal-a-chadw'r offer sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol neu gan unigolion, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddiogel.

SAFON 41: HYLENDID A RHEOLI HAINT

CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn byw mewn cartref sy'n lân a hylan.

SAFON:

- 41.1 Cedwir yr adeiladau'n lân, yn hylan ac yn rhydd rhag aroglau drwg drwyddynt draw ac mae systemau ar waith i reoli heintiau rhag lledu, yn unol â deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau proffesiynol sydd wedi'u cyhoeddi.
- 41.2 Mae gan y cyfleusterau golchi dillad fynediad uniongyrchol i'r tu allan ac fe'u lleolir fel nad yw eitemau budr, dillad a llieiniau heintiedig yn cael eu cario drwy fannau lle mae bwyd yn cael ei gadw, ei baratoi, ei goginio na'i fwyta ac nad yw'r cario hwn yn ymyrryd â'r defnyddwyr gwasanaeth.
- 41.3 Mae cyfleusterau golchi dwylo mewn lleoedd amlwg lle mae deunydd heintiedig a/neu wastraff clinigol yn cael eu trafod.
- 41.4 Mae gorffeniadau lloriau'r ty golchi yn anhydraidd a maent hwy a gorffeniadau'r waliau yn hawdd eu glanhau.
- 41.5 Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli haint yn cynnwys trafod a gwaredu diogel ar wastraff clinigol; ymdrin â cholledion; darparu dillad amddiffynnol; golchi dwylo.
- 41.6 Mae gan bob cartref gofal lle defnyddir comodau neu badelli gwelyau ddigon o gomodau a phadelli gwelyau i leihau risg croes-heintio o breswlydd i breswlydd, ac mae ganddynt olchfa ddiheintio mewn man priodol neu weithdrefnau diheintio priodol o fath arall i gynnal safonau hylendid a rheoli haint.
- 41.7 Mae dillad budron yn cael eu golchi ar dymheredd priodol (lleiafswm o 65 °C am ddim llai na 10 munud) i lanhau llieiniau'n llwyr a rheoli'r risg rhag haint.
- 41.8 Mae gan beiriannau golchi y gallu rhaglennu a bennir ar gyfer safonau diheintio.
- 41.9 Mae gwasanaethau a chyfleusterau'n cydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwi Dwr (Ffitiadau Dwr) 1999.

ATODIAD 1. GEIRFA

Asesu

Casglu a dehongli data i benderfynu ar angen unigolyn am wasanaethau iechyd, gofal personol a chymdeithasol a gwasanaethau cynnal, a wneir gyda'r unigolyn, ei gynrychiolydd a phroffesiynolion perthnasol.

Canlyniad

Canlyniad terfynol y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gartref gofal i ddefnyddiwr gwasanaeth, y gellir ei ddefnyddio i fesur effeithiolrwydd y gwasanaeth.

Camdriniaeth

Gweithred unigol neu un sy'n cael ei hailadrodd neu ddiffyg gweithredu priodol sy'n digwydd o fewn unrhyw berthynas lle mae disgwyl ymddiriedaeth ac sy'n peri niwed neu ofid i unigolyn, gan gynnwys camdriniaeth gorfforol, emosiynol, lafar, ariannol, rywiol neu hiliol, ac esgeulustra neu gamdriniaeth drwy gamddefnyddio cyffuriau.

Cartref gofal

Sefydliad sy'n darparu llety ynghyd â gofal personol neu ofal nyrsio.

Contract

Cytundeb ysgrifenedig rhwng y defnyddiwr gwasanaeth a'r cartref sy'n nodi telerau ac amodau, a hawliau a chyfrifoldebau, y ddau barti, a chan gynnwys Cynllun y Defnyddiwr Gwasanaeth.

Cynllun Addysg Personol

Cynllun sy'n amlinellu'r cymorth y bydd person ifanc yn ei gael ar gyfer ei addysg.

Cynllun y Defnyddiwr Gwasanaeth

Cynllun – a gynhyrchir ar sail yr asesiad Rheoli Gofal sengl lle mae'n gymwys - sy'n cael ei ddatblygu gan y cartref gyda'r defnyddiwr gwasanaeth ac sy'n disgrifio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd i'w ddarparu gan y cartref a sut y bydd y gwasanaethau hyn yn bodloni'r anghenion sydd wedi'u hasesu ac yn gwireddu nodau personol.

Cynllun Gofal

Datganiad ysgrifenedig, sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, sy'n nodi'r gwasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol y mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn ei gael drwy Reoli Gofal, a sut y mae'n cael ei drefnu a'i gyflwyno.

Cynllun Ymadael â Gofal

Cynllun i helpu pobl ifanc i bontio o gyflwr derbyn gofal i fod yn annibynnol.

Cynrychiolydd

Person sy'n gweithredu ar ran defnyddiwr y gwasanaeth, a all fod yn berthynas neu'n gyfaill.

Defnyddiwr cadair olwynion

Person y mae cadair olwynion yn brif ffynhonnell ei symudedd annibynnol.

Y defnyddiwr gwasanaeth

Person sy'n byw mewn cartref gofal ac y mae'r cartref yn darparu gwasanaethau iddo. Mae'n cynnwys pobl ag anabledd corfforol, nam ar eu synhwyrâu, anabledd dysgu, anhwylder sbectrwm awtistig, problemau iechyd meddwl, problemau camddefnyddio sylweddau, HIV/AIDS, ac / neu aml-ableddau deuol neu gymhleth gan gynnwys pobl sy'n fyddar ac yn ddall.

Dull Rhaglen Ofal (CPA)

Y broses ffurfiol (wedi'i hintegreiddio â Rheoli Gofal) ar gyfer asesu anghenion pobl â phroblemau iechyd meddwl cyn iddynt gael eu derbyn i ysbyty ac ar ôl eu rhyddhau.

Eiriolydd annibynnol

Unigolyn sydd yn annibynnol o'r cartref ac o unrhyw asiantaethau statudol sy'n ymwneud â phrynu a darparu gofal yn y cartref gofal, neu'n rheoleiddio'r gofal ynddo, sy'n gweithredu ar ran ac er lles defnyddiwr gwasanaeth nad yw'n teimlo ei fod yn gallu cynrychioli ei hun wrth ymdrin â phroffesiynolion. Mae hunan-eiriolwyr yn cael eu hyfforddi a'u cynnal i gynrychioli eu barn eu hunain.

Gofal canolradd

Cyfnod byr (heb fod yn fwy na chwe mis fel arfer) o adsefydlu dwys a thriniaeth i alluogi'r defnyddwyr gwasanaeth ddychwelyd adref yn dilyn cyfnod mewn ysbyty (neu er mwyn osgoi cyfnod mewn ysbyty), neu er mwyn ei atal rhag cael ei dderbyn i ofal tymor hir.

Gofal personol

Mae'n cynnwys cymorth gyda gweithredidadau'r corff yn ôl yr angen.

Gofod llawr defnyddiadwy

Lle sy'n hygyrch i'r defnyddiwr gwasanaeth ar gyfer celfi, eiddo a byw bob dydd, gyda sylw yn cael ei rhoi i, e.e. siâp yr ystafell, safle'r drysau, y ffenestri neu'r cyfleusterau *en-suite*, ac uchder rhydd.

Gweithdrefn

Y camau a gymerir i gyflawni polisi.

Gweithiwr allweddol

Y person (a all fod yn nyrs ddynodedig ar gyfer pobl sy'n cael gofal nyrsio) sy'n gyfrifol am gydgyssylltu cynllun y defnyddiwr gwasanaeth, am fonitro ei hynt ac am aros mewn cysylltiad rheolaidd â'r defnyddiwr gwasanaeth a phawb sy'n ymwneud â'r defnyddiwr hwnnw.

Gwirfoddolwr

Person sy'n gweithio heb gyflog, neu am gostau yn unig, yn y cartref neu ohono.

Lifft Pobl

Dull o gludo fertigol rhwng lloriau adeilad. Nid yw lifft gadair neu lifft risiau yn lifft pobl.

Polisi

Datganiad gweithredol o fwriad sy'n helpu'r staff i wneud penderfyniadau cadarn a chymryd camau sy'n gyfreithlon, yn gyson â nodau'r cartref, ac er lles y defnyddwyr gwasanaeth.

Pwyllgor Lleol Amddiffyn Plant y rhanbarthArdal

Grwp a ffurfiwyd i benderfynu problemau a gweithdrefnau penodol sy'n ymwneud ag amddiffyn plant mewn ardal benodol.

Rheoli Gofal

System ar gyfer trefnu rheoli a chyflwyno gwasanaethau gofal ar gyfer oedolion hawdd eu niweidio gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a chan nyrsus seiciatrig cymuned, seiciatryddion a phersonél eraill yr NHS o dan y Dull Rhaglen Ofal ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl, sy'n cynnwys asesu anghenion, cynllunio gofal, trefnu pecynnau gofal, monitro ac adolygu, ac ymwneud agos â defnyddwyr a gofalwyr.

SHGCP

Y Sefydliad Hyfforddi i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (TOPPS). Arferir swyddogaethau SHGCP yng Nghymru gan Gyngor Gofal Cymru.

Staff

Person sy'n gweithio am gyflog o fewn y cartref neu ohono, yn llawnamser, yn rhan-amser, dros dro neu ar gontract.

Ymyriad corfforol

Dull o ymateb i drais neu ymddygiad ymosodol sy'n cynnwys rhywfaint o rym corfforol uniongyrchol i gyfyngu ar symudiadau neu symudedd.

ATODIAD 2. POLISIÂU A GWEITHDREFNAU

Bydd cartrefi gofal yn datblygu polisiâu, gweithdrefnau a / neu godau ymarfer, sy'n briodol i'r sefydliad, ar y pynciau canlynol:

- Amddiffyn oedolion ac atal camdriniaeth
- Ymosodedd tuag at y staff
- Clefydau trosglwyddadwy a rheoli heintiau (canllawiau Grwp Amgylcheddol Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd)
- Pryderon a chwynion
- Cyfrinachedd a datgelu gwybodaeth
- Cysylltiad â theulu a chyfeillion ac ymweliadau ganddynt
- Rheoli rhag bod yn agored i wastraff peryglus (COSSH)
- Rheoli, rhoi, cofnodi, cadw, trafod a gwaredu moddion gan gynnwys peidio â chydymffurfio
- Rhyddhau, gan gynnwys rhyddhau sydd wedi'i gynllunio, a therfynu neu hunan-ryddhau ar fyr rhybudd
- Derbyn a chadw ar frys (Deddf Iechyd Meddwl 1983)
- Achosion brys ac argyfyngau
- Cyfleoedd cyfartal a chydraddoldeb hiliol (Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976; Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 a 1986; Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995)
- Diogelwch rhag tân
- Diogelwch bwyd a maeth
- Iechyd a diogelwch (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974)
- Hylendid a diogelwch bwyd (Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliadau 1995)
- Rheoli arian a materion ariannol y defnyddwyr gwasanaeth
- Nyrsio / triniaeth / gwarchodaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a Chod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Ymyriad corfforol
- Aflonyddu hiliol sy'n digwydd rhwng y defnyddwyr gwasanaeth; rhwng y staff; gan y staff; neu gan y defnyddwyr gwasanaeth tuag at y staff
- Cadw cofnodion a chael gweld y ffeiliau
- Recriwtio a chyflogaeth gan gynnwys diswyddo
- Cyfeirio a derbyn
- Asesu a rheoli risgiau
- Rhywioldeb a pherthnasoedd

- Ysmygu, a defnyddio alcohol a sylweddau gan ddefnyddwyr, ymwelwyr a'r staff
- Cwynion y staff a chymau disgyblu
- Chwythu'r chwiban
- Gweithio gyda gwirfoddolwyr

ATODIAD UN: SAFONAU ATODOL AR GYFER CARTREFI GOFAL SY’N LLETYA POBL IFANC 16 A 17 OED

Atodiad i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Oedolion lau

Nodiadau:

1. Mae Safonau Oedolion lau yn gymwys i gartrefi gofal sy'n lletya pobl 16 a 17 oed.
2. Gall cofrestriadau mewn perthynas â chartrefi gofal sydd i gymryd pobl 16 a 17 oed fod yn amodol ar i'r cartrefi letya pobl 16-25 oed yn unig.
3. Mae'r Atodiad yn darparu gofynion ychwanegol / atodol i'r Safonau i Oedolion lau (wedi'u rhifo i ddilyn y Safonau i Oedolion lau).
4. Mae'r Atodiad yn nodi penawdau'r pynciau allweddol ar gyfer Safonau Oedolion lau, ynghyd â phennawd yr Adran a datganiad o'r Safon gyntaf os oes anghenion ychwanegol.

1. DEWIS CARTREF

Gwybodaeth

SAFON 1

Mae'r person cofrestredig yn llunio datganiad o ddiben cyfoes sy'n nodi nodau, amcanion ac athroniaeth y cartref, ei wasanaethau a'i gyfleusterau, a thelerau ac amodau; ac yn darparu canllawiau i'r cartref i bob darpar ddefnyddiwr gwasanaeth;

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 1.1 – 1.3, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safon atodol canlynol:

1. Mae'r datganiad o ddiben yn disgrifio'r hyn y mae'r cartref yn ymorol ei wneud yn benodol ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed, fel y mae'n ofynnol gan Atodlen 5 i Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002, gan gynnwys trefniadau ar gyfer ymadael â gofal / pontio i fod yn oedolion.

Asesu Anghenion

SAFON 2

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau mai dim ond ar sail asesiad llawn, a gynhelir gan bobl a hyfforddwyd ar gyfer gwneud hynny ac sy'n cynnwys y darpar ddefnyddiwr gwasanaeth drwy ddefnyddio dull priodol o gyfathrebu, y caiff defnyddwyr gwasanaeth eu derbyn o'r newydd.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 2.1 – 2.7, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safonau atodol canlynol:

1. Dim ond ar gyfer gwasanaeth [pontio] arbenigol i bobl ifanc 16-25 oed y mae'r person cofrestredig yn derbyn pobl ifanc o dan 18, oni bai fod gwneud fel arall yw'r dull mwyaf priodol i hybu a diogelu lles y person ifanc.
2. Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan bob person ifanc gynllun lleoli sy'n pennu anghenion sydd wedi'u hasesu, amcanion y lleoliad, a sut y mae'r rhain i'w bodloni gan y darparwydd cofrestredig ar sail ddyddiol, y cyfraniad sydd i'w wneud gan staff y cartref, a sut y mae effeithiolrwydd y cartref i gael ei asesu.

2. ANGHENION A DEWISIADAU UNIGOL

SAFON 6

Mae'r person cofrestredig yn llunio Cynllun unigol gyda phob defnyddiwr gwasanaeth ac yn cytuno arno, a gall y Cynllun hwnnw gynnwys triniaeth ac adsefydliad. Mae'r Cynllun yn disgrifio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd i'w darparu gan y cartref, a sut y bydd y gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion a dyheadau cyfoes a chyfnewidiol a sut y byddant yn cyflawni amcanion.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 6.1 – 6.10, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safonau atodol canlynol:

1. Mae'r person cofrestredig yn cyfrannu'n effeithiol at adolygiad lleoli pob plentyn ac at adolygiad pob plentyn mewn gofal ac mae'n gweithredu'r canlyniad y cytunwyd arno yn sgil yr adolygiadau hynny yn ôl yr angen.
2. Mae'r cartref yn cysylltu ag awdurdodau lleoli i ofyn am adolygiadau brys ac adolygiadau statudol pan fydd eu hangen, onid yw'r awdurdod lleoli wedi trefnu'r adolygiadau hynny; a chofnodir canlyniadau pob adolygiad statudol yng nghofnod achosion unigol y defnyddiwr gwasanaeth, a nodir yn glir pa unigolion sy'n gyfrifol dros weithredu'r camau sydd i'w cymryd yn sgil yr adolygiad.
3. Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod Cynllun Ymadael â Gofal yn cael ei weithredu a'i fod yn gyson â'r cynllun lleoli / cynllun y defnyddiwr gwasanaeth, a'r cynllun gofal neu'r cynllun ar drywydd gwaith pan fydd hynny'n gymwys, ar ran unrhyw berson ifanc sy'n disgwyl ymadael â gofal neu'n disgwyl symud i fyw'n annibynnol o fewn y flwyddyn nesaf. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r cymorth y bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn ei gael er mwyn ei alluogi i bontio i fywyd oedolyn yn llwyddiannus, gan gynnwys trefniadau ar gyfer:
 - addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
 - trefnu llety diogel a fforddiadwy
 - cymorth ariannol er mwyn galluogi'r person ifanc i sefydlu a chynnal llety annibynnol pan fydd hynny'n gymwys
 - hawlio budd-daliadau lles os gwelir bod angen hyn
 - addysg iechyd a gofal iechyd cyffredinol ac arbenigol, a gwasanaethau arbenigol eraill megis cwnsela
 - cynnal y rhwydweithiau cymorth presennol fel y'u diffinnir gan y person ifanc a chreu rhwydweithiau newydd

SAFON 9

Mae'r staff yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gymryd risgiau cyfrifol o fewn cyd-destun Cynlluniau unigol y defnyddwyr gwasanaeth a strategaethau asesu risgiau a rheoli risgiau'r cartref, gan sicrhau bod gan y defnyddwyr gwasanaeth wybodaeth dda i seilio penderfyniadau arni.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 9.1-9.3, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safon atodol canlynol:

1. Mae unrhyw weithgaredd risg uchel a ddarperir neu a drefnir yn cael ei oruchwylio gan bersonau sy'n gymwys i oruchwylio'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd o dan sylw (megis personau sydd â chymhwyster hyfforddi neu oruchwylio plant a ddyfernir gan y corff cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer y gweithgaredd sydd o dan sylw).

3. DULL O FYW

Datblygiad Personol

SAFON 11

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth gyfleoedd i feithrin a datblygu medrau cymdeithasol, medrau emosiynol, medrau cyfathrebu a medrau byw'n annibynnol.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 11.1 – 11.3, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safon atodol canlynol:

1. Mae'r cartref yn rhoi cymorth i'r defnyddwyr gwasanaeth baratoi ar gyfer byw'n annibynnol, gan gynnwys:
 - i. datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol a rhywiol
 - ii. datblygu hunan barch
 - iii. paratoi at fyd gwaith ac at ymdopi â diweithdra a/neu unigedd

Addysg a Galwedigaeth

SAFON 12

Mae'r person cofrestredig yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddod o hyd i swyddi priodol a'u cadw, i barhau â'u haddysg neu eu hyfforddiant, ac/neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 12.1 – 12.6, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safonau atodol canlynol:

1. Mae cynllun unigol pob defnyddiwr gwasanaeth yn cynnwys manylion am hanes addysgol, cynnydd a llwyddiannau, ac adroddiadau perthnasol (megis y Cynllun Addysg Personol).
2. Mae'r cynllun unigol yn rhoi sylw, yn benodol, i addysg y defnyddiwr gwasanaeth (gan gynnwys addysg ysgol ac addysg bellach neu addysg uwch) ac yn ymwneud â'r canlynol:
 - (i) buddiannau mynychu sefydliad addysgol penodol
 - (ii) hybu presenoldeb yn yr ysgol (neu'r coleg)
 - (iii) cyfranogiad rhiant/gweithiwr cymdeithasol
 - (iv) dyddiadau arholiadau megis TGAU, lefelau AS, ac A
 - (v) trefniadau ar gyfer teithio i'r ysgol ac ohoni
 - (vi) addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth pob defnyddiwr gwasanaeth dros oedran ysgol.
3. Mae'r staff yn gyfarwydd â hanes addysgol ac anghenion addysgol y bobl ifanc yn y cartref.

4. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael mynediad llawn i gyfleusterau addysgol, a darperir cyfleusterau iddynt sy'n gydnaws ag astudio, ac fe'u hanogir i wneud eu gwaith cartref a rhoir cymorth iddynt os ydynt yn dymuno hynny.
5. Mae'r staff (y gweithiwr allweddol gan amlaf) yn mynychu cyfarfodydd rhieni a digwyddiadau eraill yn yr ysgol y mae rhieni fel arfer yn eu mynychu.

Hamdden

SAFON 14

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfle i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau hamdden priodol ac yn cael dewis o'u plith.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 14.1 – 14.5, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safonau atodol canlynol:

1. Caiff penblwyddi, dyddiau enwi a gwyliau diwylliannol a chrefyddol eu dathlu ac mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan wrth gynllunio'r digwyddiadau hyn.
2. Mae gweithgareddau yn darparu cydbwysedd rhwng amser rhydd ac amser a reolir, maent yn cynnig profiadau newydd, ac yn darparu amrywiaeth o amser gydag oedolion a hebddynt.
3. Nid yw defnyddwyr gwasanaeth sydd o dan 18 oed yn cael cyfle i weld na gwyllo fideos a ardystiwyd yn addas i bobl dros 18 oed, ac mae systemau a pholisïau ar waith i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth pan fyddant yn rhwydweithio ar y cyfrifiadur neu ar y Rhyngrwyd.
4. Caiff diddordebau hamdden a'r meysydd y mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth dalentau neu alluoedd ynddynt eu hybu a'u cefnogi'n ariannol.

Prydau Bwyd

SAFON 17

Mae'r person cofrestredig yn hybu iechyd a lles y defnyddwyr gwasanaeth drwy ddarparu prydau bwyd maethlon, amrywiol, cytbwys sydd wedi'u cyflwyno'n ddeniadol mewn lleoliad cydnaws ac ar adegau hyblyg.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 17.1 – 17.8, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safon atodol canlynol:

1. Mae'r cartref yn gofyn am gyngor meddygol os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn gyson yn gwrthod bwyta.

4. CYMORTH PERSONOL

Gofal iechyd

SAFON 19

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod anghenion gofal iechyd y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hasesu a'u cydnabod a bod gweithdrefnau ar waith i gwrdd â'r anghenion hynny.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 19.1 – 19.4, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safonau atodol canlynol:

1. Mae'r cartref yn darparu canllawiau, cyngor a chymorth ar gam-drin alcohol a sylweddau anghyfreithiol, ysmegu, addysg rhyw, haint HIV, hepatitis a chlefydau a drosglwyddir yn rhywiol.
2. Nid yw'r staff yn ysmegu nac yn yfed alcohol pan fyddant ar ddyletswydd.

5. STAFFIO

Nodweddion a Chymwysterau

SAFON 23

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan y staff y cymhwyseddau a'r nodweddion y mae eu hangen i fodloni anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 23.1 – 23.6, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safon atodol canlynol:

1. Erbyn 1 Ebrill 2005, mae 80% o'r staff gofal sy'n gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth 16 a 17 oed wedi cwblhau NVQ lefel 3 mewn Gofalu am Blant a Phobl Ifanc neu gymhwyster tebyg sy'n cael ei gydnabod gan Gyngor Gofal Cymru.

Tîm y Staff

SAFON 24

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan y cartref dîm staff cadarn, sefydlog a chydlynol, sy'n ddigonol o ran nifer a medrau cydategol i gynnal yr anghenion sydd wedi'u hasesu ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth ar bob adeg.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 24.1 – 24.10, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safon atodol canlynol:

1. Mae staff sydd â chyfrifoldeb unigol dros bobl ifanc 16 a 17 oed yn 21 oed o leiaf.

Hyfforddi a Datblygu

SAFON 26

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod yna raglen hyfforddi a datblygu staff sy'n sicrhau bod y staff yn cyflawni nodau'r cartref ac yn diwallu anghenion cyfnewidiol defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 26.1 – 26.6, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safon atodol canlynol:

1. Mae hyfforddiant cynefino i staff sy'n gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth 16 a 17 oed yn cynnwys canllawiau ar amddiffyn plant.

7. PRYDERON, CWYNION AC AMDDIFFYNIAD

Amddiffyniad

SAFON 36

Mae'r person cofrestredig sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth gorfforol, ariannol, faterol, seicolegol neu rywiol a chamdriniaeth oherwydd camwahaniaethu a rhag esgeulustra a hunan-niwed, a rhag triniaeth annynol neu ddiraddiol, boed hynny drwy fwriad, esgeulustod neu anwybodaeth, yn unol â pholisi ysgrifenedig.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 36.1 – 36.6, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safonau atodol canlynol:

1. Mae systemau ar waith i hybu diogelwch a lles plant ac i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, ac mae'r holl staff yn gwybod amdanynt ac yn eu deall (gan gynnwys staff iau, staff ategol, staff gwirfoddol a staff asiantaeth).
2. Cedwir copi o weithdrefnau y Pwyllgor Amddiffyn Plant yr Ardal (PAPYR) lleol yn y cartref. Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y staff wedi'u darllen, yn eu deall ac yn wybodus amdanynt.
3. Mae yna weithdrefnau clir ar gyfer ymateb i honiadau neu amheuan o gamdriniaeth, naill ai gan y staff neu gan blant eraill yn y cartref, neu gan eraill, ac mae'r holl staff yn gwybod amdanynt, yn eu deall ac yn eu dilyn. Maent yn cynnwys:
 - (i) gofyniad i'r staff neu eraill sy'n gweithio yn y cartref y mae honiad o gamdriniaeth yn cael ei gyflwyno iddynt, neu y maent yn amau camdriniaeth, osgoi gofyn cwestiynau arweiniol neu roi gwarantau amhriodol o gyfrinachedd;
 - (ii) gofyniad i roi gwybod i'r heddlu ynghylch unrhyw dystiolaeth bod plant yn ymwneud â phuteindra, neu bod personau heb awdurdod yn casglu plant, yn cysylltu â phlant yn y cartref, neu'n cael eu gweld yn ceisio gwneud cysylltiad â'r plant y tu allan i'r cartref;
 - (iii) cyfarwyddyd i staff ar y camau i'w cymryd os deuant i wybod am honiad neu amheuaeth o gamdriniaeth sy'n ymwneud â'r rheolwr cofrestredig neu'r person sydd ar y pryd â gofal y cartref o ddydd i ddydd.
4. Mae'r gweithdrefnau amddiffyn plant yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau a'r polisiau lleol y cytunwyd arnynt gan Bwyllgor Amddiffyn Plant yr Ardal (PAPYR) sy'n berthnasol i'r ardal ddaearyddol y lleolir y cartref ynddi. Mae'r gweithdrefnau amddiffyn plant wedi'u cyflwyno i'r PAPYR lleol er mwyn iddynt eu hystyried a rhoi sylwadau arnynt, ac mae unrhyw sylwadau wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.

5. Mae'r person cofrestredig wedi cysylltu â Chyd-gysylltydd Amddiffyn Plant yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol (neu swyddog hyn arall sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn plant yn yr adran honno) er mwyn ceisio cyngor am weithdrefnau ac ymarfer lleol, ac wedi trafod perthynas ymarferion y cartref â'r ymarferion hynny o ran cadw plant yn ddiogel, ymateb i honiadau neu amheuon o gamdriniaeth, a dulliau rheoli a chymryd risg. Mae unrhyw wrthdaro rhwng gweithdrefnau a gytunwyd yn lleol a gweithdrefnau awdurdodau eraill sy'n lleoli wedi cael eu trafod yn ogystal.
6. Mae yna ganllawiau ysgrifenedig ar gyfer staff sy'n dangos yn glir ym mha ffyrdd y bydd person cofrestredig y cartref yn sicrhau y bydd aelodau o'r staff y mae honiadau wedi cael eu gwneud yn eu herbyn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chymorth tra bod archwiliad ar y gweill.
7. Mae unrhyw ganllawiau ar baratoir ar gyfer staff ynghylch gweithdrefnau yn dangos, yn glir, y systemau sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn plant a lleiafu'r risg o gamdriniaeth tra bod y plentyn yn byw yn y cartref. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys arweiniad ar y materion canlynol:
 - (i) gwneud asesiad llawn o hanes plant ac unrhyw brofiad o gam-drin;
 - (ii) cadw golwg ar y cysylltiadau rhwng plant;
 - (iii) goruchwyllo plant;
 - (iv) goruchwyllo a chynorthwyo staff;
 - (v) adnabod ymwneud posibl plant â phuteinio;
 - (vi) cyfrinachedd;
 - (vii) cysylltiad corfforol rhwng staff a phlant;
 - (viii) treulio amser gyda phlant heb bresenoldeb pobl eraill;
 - (ix) gweithdrefnau gofal agos a gofal trychiadol;
 - (x) rhoi meddyginiaeth.
8. Mae'r person cofrestredig yn darparu hyfforddiant i'r holl staff, gan gynnwys staff atodol, staff asiantaeth a staff gwirfoddol, ar atal camdriniaeth, adnabod camdriniaeth, ymwneud â datgeliadau neu amheuon o gamdriniaeth, a gweithdrefnau'r cartref ar amddiffyn plant. Caiff yr hyfforddiant hwn ei gynnwys mewn rhaglenni cynefino i staff newydd, gan gynnwys staff dros dro neu staff asiantaeth, ac mae yna hyfforddiant parhaus i'r grwp staff yn unol â nodau ac amcanion y cartref.
9. Mae gan y person cofrestredig a'r staff gysylltiadau rheolaidd ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud ag amddiffyn plant e.e. yr awdurdod lleoli, ysgolion, ysbytai, ymarferwyr cyffredinol, etc., ac nid ydynt yn gweithio yn gwbl wahân oddi wrthynt.
10. Mae'r person cofrestredig yn dilyn unrhyw brotocolau sydd wedi'u llunio rhwng yr asiantaethau lleol ar atal puteindod plant a chynnal archwiliadau yn ei gylch.

Bwlio

11. Mae gan y cartref bolisi ar fynd i'r afael â bwlio, ac mae'n ei ddilyn. Mae'r polisi yn hysbys i ddefnyddwyr gwasanaeth ac i staff, ac mae'n cynnwys:
 - (i) diffiniad o fwlio
 - (ii) mesurau i atal bwlio ac i ymateb iddo
 - (iii) hyfforddiant i staff ynghylch ymwybyddiaeth o fwlio ac ar strategaethau effeithiol i'w wrthwynebu.
12. Mae defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu bwlio'n cael eu cynorthwyo, ac mae'r rhai a all fod yn bwlio eraill yn cael canllawiau addas.

Absenoldeb heb awdurdod

13. *Mae gweithdrefnau ysgrifenedig y cartref yn nodi pa gamau sydd i'w cymryd pan fydd plentyn yn absennol heb awdurdod yn cymryd canllawiau'r Cynulliad i ystyriaeth.*

8. AMGYLCHEDD

Ystafelloedd Unigol

SAFON 38

Mae'r person cofrestredig yn darparu, ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth, ystafell wely breifat y gellir ei chloi, sydd â gofod llawr defnyddiadwy a ffitiadau a chelfi sy'n ddigonol ac yn addas i fodloni anghenion yr unigolyn a'i ddull o fyw.

Yn ychwanegol at y gofynion yn Safonau 38.2 – 38.13, mae cartrefi sy'n lletya pobl ifanc 16 a 17 oed yn bodloni'r safonau atodol canlynol:

1. Nid yw defnyddwyr gwasanaeth yn rhannu ystafelloedd gwely â defnyddwyr gwasanaeth eraill o oedran sy'n arwyddocaol wahanol (heblaw eu brodyr neu chwiorydd, os ydynt yn dewis hynny ac os yw asesiad risg wedi'i gynnal), na gyda'r rhai o'r rhyw arall.
2. Mae'r cartref yn darparu cyfleusterau i blant i astudio, ac mae'r cyfleusterau hynny'n dawel, gyda digon o le ar gyfer eistedd ac ar gyfer desg neu fwrdd, wedi'u goleuo'n ddigonol, gyda digon o le i storio llyfrau a deunyddiau astudio, ac ar gael pan fydd eu hangen ar gyfer astudio.

Atodiad Dau: Amrywiadau ar gyfer Cartrefi Gofal i Gamddefnyddwyr Sylweddau

Cynllun Defnyddiwr Gwasanaeth: safon 6

- 6.5 Mae'r Cynllun yn disgrifio unrhyw gyfyngiadau ar ddewis a rhyddid (wedi'u cytuno â'r defnyddiwr gwasanaeth) sy'n debygol o fod yn rhan o raglen therapiwtig arbenigol ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau.

Arferion Pob Dydd: safon 16

- 16.2 Fel rheol dim ond gyda chaniatâd yr unigolyn y mae'r staff yn mynd i mewn i ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi defnyddiwr gwasanaeth ac yn eu presenoldeb. Dylid datgan ac esbonio'r rhesymau dros yr eithriadau pan gaiff y staff fynd i mewn i ystafelloedd gwely heb ganiatâd neu bresenoldeb y preswylydd yn Natganiad Diben y Cartref a'u cynnwys mewn unrhyw gontract.
- 16.3 Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth allwedd i'w ystafell wely/ystafell ymolchi y gellir eu cloi oddi fewn ac oddi allan.
- 16.7 Mae defnyddwyr gwasanaeth yn dewis pryd i fod ar eu pen eu hunain neu mewn cwmni, a phryd i beidio â chymryd rhan mewn gweithgaredd, yn ddarostyngedig i amodau eu cynllun defnyddiwr gwasanaeth.
- 16.8 Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth fynediad 24 awr i'r cartref a'r tiroedd pan nad yw hynny'n effeithio ar weithgareddau therapiwtig ac yn ddarostyngedig i amodau'r cynlluniau defnyddiwr gwasanaeth. Mae gan ymwelwyr fynediad yn ddarostyngedig i amodau'r cynlluniau defnyddiwr gwasanaeth a chydysyniad unigol a thorfol y defnyddwyr gwasanaeth.

Meddyginiaeth: safon 20

- 20.12 Mae'r staff yn monitro cyflwr y defnyddiwr gwasanaeth ar feddyginaeth ac yn galw i mewn y Swyddog Meddygol Cyfrifol os ydynt yn pryderu ynghylch unrhyw newid yn y cyflwr a all fod o ganlyniad i'r feddyginiaeth, ac yn ysgogi adolygu'r feddyginiaeth yn rheolaidd.

Adeiladau: safon 37

- 37.3 Mae cartrefi newydd yn lletya uchafswm o 16 o bobl heb ddim rhagor nag wyth o bobl yn rhannu grwp staff, man bwyta a chyfleusterau cyffredin eraill. Trefnir cartrefi mwy, sy'n bodoli eisoes, yn glystyrau o hyd at wyth o bobl ar y sail hon erbyn 1 Ebrill 2007.

Ystafelloedd unigol: safon 38

- 38.2 Cynigir y dewis o ystafell sengl, pan fyddant ar gael, i'r defnyddwyr gwasanaeth ar sail angen wedi'i asesu.
- 38.3 Y gofod safonol lleiaf ar gyfer ystafelloedd sengl mewn Cartrefi a fwriedir yn unig ar gyfer gwasanaethau adfer tymor-byr am gyfnodau nad ydynt fel rheol yn hwy na chwe mis yw 8.0 metr sgwâr.
- 38.3 Mae ystafelloedd a rennir yn peidio â bod erbyn 2004 oni bai fod rhannu ystafell (gan gynnwys mamau gyda'u plant) yn cael ei gytuno o fewn y cynllun(iau) defnyddiwr gwasanaeth fel rhan hanfodol o'r broses therapiwtig o driniaeth a gofal ac yn unol â Datganiad Diben y cartref.
- 38.7 Mewn adeiladau newydd, estyniadau a chofrestriadau am y tro cyntaf, gellir cynnig cymysgfa o ystafelloedd sengl a dwbl, ar sail angen clinigol, ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio sylweddau ac yn gyson â Datganiad Diben y cartref.
- 38.7 Nid yw toiledau yn cael eu rhannu gan ragor na bedwar o bobl. Nid yw ystafelloedd ymolchi (basn ymolchi a chawod neu fath) yn cael eu rhannu gan ragor na chwech. O 1 Ebrill 2004, mae ystafelloedd ymolchi yn cael eu rhannu gan nid rhagor na phedwar o bobl.
- 38.7 Mae toiledau ac ystafelloedd ymolchi ar bob llawr lle mae ystafelloedd gwely defnyddwyr gwasanaeth, maent yn ddiwylliannol briodol ac mae modd eu cloi.
- 38.12 Mae teledu yn y cartref. Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth fynediad at ffôn o fewn y cartref ac maen nhw'n gallu ei ddefnyddio yn breifat.